# Trwyddedu Sianel 3 a Sianel 5

## Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 229 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

Fersiwn heb fod yn gyfrinachol – wedi ei golygu ar gyfer ei chyhoeddi [✂]

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mehefin 2022

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg 1

2. Cefndir yr adroddiad hwn 6

3. Cyfraniadau Sianeli 3 a 5 at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus 15

4. Casgliadau 38

# 1. Trosolwg

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ein barn ar allu'r rhai sy'n dal trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 i gyfrannu at gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ar gost sy'n gynaliadwy'n fasnachol, dros gyfnod y drwydded am y ddeng mlynedd nesaf. Pwrpas darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw sicrhau bod amrywiaeth eang a chytbwys o raglenni o ansawdd uchel yn cael eu darparu, sy'n diwallu anghenion ac yn bodloni diddordebau cynifer o gynulleidfaoedd ag sy'n ymarferol bosibl. Mae'r adroddiad hwn yn rhan o'r broses sy'n arwain naill ai at adnewyddu neu ailhysbysebu'r trwyddedau, y mae'n rhaid ei gwblhau cyn iddynt ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2024.

Mae 15 o drwyddedau Sianel 3 cenedlaethol a rhanbarthol ac un drwydded brecwast ledled y Deyrnas Unedig. Bydd elfennau o amserlen Sianel 3 yn wahanol yn dibynnu ar lle'r ydych chi'n byw, yn fwyaf nodedig ar gyfer rhaglenni newyddion y gwledydd a'r rhanbarthau. Mae trwyddedau Sianel 3 ym meddiant is-gwmnïau ITV plc (ITV) ac STV Group plc (STV). Mae STV yn darparu gwasanaeth Sianel 3 yng nghanolbarth a gogledd yr Alban tra bod ITV yn darparu'r gwasanaethau yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a de'r Alban, ochr yn ochr â'r gwasanaeth brecwast, GMTV. Mae trwydded Channel 5 yn darparu gwasanaeth ledled y Deyrnas Unedig. Mae ym meddiant un o is-gwmnïau Paramount Global.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn cynnwys ein barn ynghylch a ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol arfer ei bwerau i wneud gorchmynion er mwyn:

- rhwystro adnewyddu'r drwydded; a/neu
- dileu'r rhwymedigaethau statudol y mae'n rhaid eu cynnwys yn nhrwyddedau Sianel 3 a Sianel 5, neu mewn rhai achosion eu diwygio.

Os na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymyrryd, byddwn yn bwrw ymlaen â'r broses o adnewyddu'r drwydded. Rhaid ailhysbysebu trwyddedau nad ydynt yn cael eu hadnewyddu.

### Yn gryno

Rydym o'r farn y gallai'r trwyddedeion barhau i gyfrannu at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus am gost sy'n gynaliadwy'n fasnachol dros y cyfnod trwyddedu nesaf:

- Rhwymedigaethau'r drwydded bresennol yw'r cyfraniadau sylfaenol i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus rydym yn eu disgwyl ar gyfer cynulleidfaoedd, ac mae gan Sianeli 3 a 5 enw da am eu cyflawni.
- Yn ychwanegol at rwymedigaethau penodol y drwydded, mae trwyddedeion Sianel 3 a Sianel 5 yn cyfrannu'n fwy cyffredinol at ddibenion ac amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus - er enghraifft, drwy fuddsoddi mewn amrywiaeth eang o gynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n diwallu anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd gwahanol. Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi'r sianeli.
- Gallai'r rhwymedigaethau presennol fod yn gynaliadwy yn fasnachol, fel y gallai'r trwyddedeion barhau i'w cyflawni dros gyfnod nesaf y drwydded; sefyllfa a fyddai'n cael ei chryfhau drwy weithredu diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y DU i sefydlu rheoliadau amlygrwydd ac argaeledd newydd ar gyfer gwasanaethau teledu ar-lein darlledu gwasanaeth cyhoeddus perthnasol.

# Ein prif ganfyddiadau

## Mae trwyddedeion Sianel 3 a Sianel 5 yn debygol o barhau i wneud cyfraniadau pwysig i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus dros gyfnod nesaf y drwydded

Yn ogystal â'u cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus i ddarparu rhaglenni amrywiol o ansawdd uchel, mae trwyddedau Sianeli 3 a 5 yn cynnwys dyletswyddau cynhyrchu a rhaglenni penodol, fel cwotâu ar gyfer oriau o newyddion a materion cyfoes, cyfran y rhaglenni gwreiddiol, a chyfran y rhaglenni a'r buddsoddiad sydd i'w gwneud y tu allan i Lundain. Ac eithrio rhai mân effeithiau oherwydd Covid-19, mae'r trwyddedeion wedi cyflawni rhwymedigaethau eu trwydded ers dechrau'r cyfnod trwyddedu presennol yn 2015.

Mae sianeli 3 a 5 yn rhan bwysig o'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ochr yn ochr â'r BBC, Channel 4 ac S4C. Mae gan bob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rôl unigryw o ran sicrhau bod gan y system rywbeth i bawb, fel eu bod yn gallu ddiwallu anghenion a diddordebau cynifer o wahanol gynulleidfaoedd â phosibl gyda'i gilydd.  Mae ein hymchwil a'n dadansoddiad yn dangos, er bod arferion gwylio yn newid, bod Sianeli 3 a 5 yn parhau i gael eu gwerthfawrogi gan gynulleidfaoedd, ac yn boblogaidd yn eu golwg nhw.

- Mae bron i hanner poblogaeth y Deyrnas Unedig yn gwylio Sianel 3 bob wythnos, ac mae bron i draean yn gwylio Sianel 5. Yn yr Alban, mae dros hanner yr holl unigolion yn gwylio STV bob wythnos.[1]

[1] BARB. Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd % 15 munud a mwy yn olynol. Ardal Rhwydwaith ac ITV yr Alban (ar gyfer STV).

- Mae ein hymchwil yn dangos lefelau uchel o fodlonrwydd ymysg cynulleidfaoedd â'r sianeli. Mae tri chwarter (75%) y bobl sydd wedi gwylio'r sianel yn ystod y chwe mis diwethaf yn fodlon ar ITV/STV/UTV ac mae dwy ran o dair (67%) yn dweud yr un fath am Channel 5.[2]
- Mae Sianeli 3 a 5 yn rhagori ar y gofynion sylfaenol sydd wedi eu nodi yn eu cwotâu ar gyfer newyddion a materion cyfoes rhwydwaith. Mae tua saith o bob deg o bobl sy'n gwylio newyddion Sianel 3 yn ei ganmol am ymddiriedaeth, cywirdeb ac ansawdd uchel, ac mae tua chwech o bob deg sy'n gwylio newyddion Channel 5 yn rhoi sgôr uchel iddi am yr un priodoleddau.[3] Mae'r ddwy sianel wedi gwneud cyhoeddiadau diweddar a newidiadau i amserlenni er mwyn buddsoddi mewn gwasanaethau newyddion ledled y Deyrnas Unedig a'u diweddaru er mwyn diwallu anghenion cynulleidfaoedd yn well.
- Mae Sianel 3 yn darparu cystadleuaeth a llais amgen i'r BBC o ran darparu newyddion rhanbarthol yn Lloegr ac mae'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu lluosogrwydd darpariaeth newyddion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- Mae Sianeli 3 a 5 hefyd yn chwarae rhan bwysig yn iechyd sector cynhyrchu'r Deyrnas Unedig, gan wario tua £860 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd ar gynnwys rhwydwaith gwreiddiol, llawer ohono'n cael ei wario ar raglenni sy'n cael eu cynhyrchu'n allanol.[4]

Yr amrediad presennol o rwymedigaethau trwydded yw'r isafswm y byddem yn disgwyl i'r rhai sy'n dal trwyddedau Sianeli 3 a 5 gyfrannu at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac o'r herwydd, nid ydym yn gweld achos dros argymell y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ddileu unrhyw un o'r rhwymedigaethau statudol sydd wedi eu cynnwys yn y trwyddedau.

## Gallai'r cyfraniadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus a wneir gan Sianeli 3 a 5 fod yn gynaliadwy'n fasnachol yn ystod cyfnod nesaf y drwydded, ond mae hyn mewn mwy a mwy o berygl wrth i werth buddion trwyddedau ostwng

Yn gyfnewid am gyflawni'r dyletswyddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus sydd yn y trwyddedau, mae Sianeli 3 a 5 yn cael manteision nad yw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu cael. Ar hyn o bryd mae'r manteision hyn ar ffurf amlygrwydd mewn cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs) a mynediad breintiedig at sbectrwm. Mae'r sbectrwm hwn yn galluogi'r rhai sy'n dal trwyddedau i ddarparu eu gwasanaethau i 98.5% o boblogaeth y Deyrnas Unedig ar y llwyfan teledu daearol digidol (DTT).

Er mwyn gwerthuso a allai'r cyfraniadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus fod yn gynaliadwy, rydym wedi asesu costau perthnasol rhwymedigaethau'r drwydded darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac wedi cymharu'r rhain â gwerth y buddion presennol dros gyfnod y drwydded nesaf. Mae amcangyfrif costau a buddion tan 2034 yn ofalus yn broses anodd, ac o reidrwydd mae amcangyfrifon yn seiliedig ar dybiaethau eang a chrebwyll sylweddol.

Ar sail ein dadansoddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y trwyddedigion, dros gyfnod y drwydded nesaf rydym o'r farn:

[2] Traciwr PSM Ofcom 2021.
[3] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion, 2022.
[4] Ofcom/darlledwyr.

- Y gallai rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus Sianel 3 fod yn gynaliadwy dros 10 mlynedd yn gyffredinol ond y gallent gynrychioli cost net flynyddol fach tua diwedd y cyfnod. Fodd bynnag, fel trwyddedai unigol, gallai rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus STV gynrychioli cost net fach ym mhob blwyddyn yn ystod cyfnod nesaf y drwydded; ac
- Mae dyletswyddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus Sianel 5 yn debygol o fod yn gynaliadwy.

Gan fod gwerth buddion trwydded yn debygol o ostwng dros gyfnod y drwydded nesaf wrth i refeniw hysbysebu a gwylio llinol symud i lwyfannau eraill, rydym yn cydnabod y gallai cynaliadwyedd ddod o dan bwysau cynyddol, yn enwedig os bydd gwerth buddion y drwydded yn gostwng yn gyflymach na'r disgwyl. Fodd bynnag, mae'r trwyddedau'n rhan o fusnesau darlledu a chynhyrchu ehangach ITV, STV a Paramount Global a gallant yn rhesymol ystyried y cyd-destun ehangach hwn wrth ystyried gwerth masnachol llawn eu trwyddedau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan y trwyddedeion yn awgrymu bod rhesymau strategol dros barhau fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus trwyddedig hyd yn oed lle gallai ein dadansoddiad awgrymu y gallai'r rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus gynrychioli cost net fach o'i chymharu â manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn rhai blynyddoedd o gyfnod y drwydded nesaf.

## Mae'r diwygiadau arfaethedig i reoleiddio amlygrwydd ac argaeledd darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn hanfodol er mwyn diogelu'r buddion i gynulleidfaoedd yn ystod cyfnod nesaf y drwydded a chryfhau cynaliadwyedd Sianeli 3 a 5

Ym mis Gorffennaf y llynedd, fe wnaethom gyhoeddi ein hargymhellion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus. Fe wnaethom ddweud bod angen moderneiddio'r fframwaith rheoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac fe wnaethom amlinellu amrywiaeth o feysydd yr oedd angen eu diwygio ar frys. Yn benodol, fe wnaethon ni ailadrodd ein hargymhellion o 2019 am ddeddfwriaeth newydd i sicrhau amlygrwydd i gynnwys gwasanaeth cyhoeddus byw ac ar-alw ar draws yr holl brif wasanaethau a llwyfannau teledu. Fe wnaethom hefyd nodi argymhellion newydd ar sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang y tu hwnt i'r sianeli llinol yn unig.

Ym mis Ebrill eleni, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei phapur gwyn, *Up Next*, yn nodi ei weledigaeth ar gyfer y sector darlledu. Mae'r papur gwyn yn egluro bwriadau polisi'r Llywodraeth ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys ar reoliadau newydd i sicrhau amlygrwydd ac argaeledd darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac y bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn bil cyfryngau sydd ar y gweill. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno'r bil i'r Senedd yn y sesiwn Seneddol bresennol.

Mae diwygiadau i'r rheolau amlygrwydd ac argaeledd yn bwysig er mwyn cryfhau'r gwaith o gyflawni rhwymedigaethau'r drwydded darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gynaliadwy yn y dyfodol. Tynnodd y trwyddedeion sylw at hyn fel pryder allweddol yn yr wybodaeth roeddent wedi ei rhoi i ni ar gyfer yr adroddiad hwn, gan y dylai diwygiadau o'r fath helpu i liniaru'r gostyngiad yng ngwerth y buddion trwydded presennol. Yn hollbwysig, bydd y diwygiadau'n helpu i ddiogelu buddion i gynulleidfaoedd drwy sicrhau bod gwasanaethau a chynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal ar gael yn eang ac yn hawdd dod o hyd iddynt ar-lein.

## Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y rhai sy'n dal trwyddedau ac eraill i wneud yn siŵr bod modd rhoi diwygiadau ar waith yn effeithiol a bod buddiannau cynulleidfaoedd yn cael eu diogelu

Yn ogystal â'r diwygiadau i amlygrwydd ac argaeledd, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd wedi cynnig symleiddio dibenion ac amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda chylch gwaith newydd, byrrach a rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran sut maent yn cyflawni'r cylchoedd gwaith hynny y tu hwnt i sianeli teledu gwasanaeth cyhoeddus.

Mae'n debygol y bydd angen diweddaru'r trwyddedau i adlewyrchu newidiadau i'w gwneud gan y bil cyfryngau, er nad oes modd gwybod yr union ofynion ar hyn o bryd. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y trwyddedeion a rhanddeiliaid eraill ynghylch pryd gellid gweithredu newidiadau o'r fath, a byddem yn disgwyl ymgynghori ynghylch unrhyw newid perthnasol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib.

Fel rhan o'n rhaglen waith ehangach i sicrhau bod y fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn effeithiol, rydym wedi cyhoeddi ein cynigion yn ddiweddar i ddiweddaru trwydded weithredu'r BBC, gan gynnwys cynlluniau i ymgorffori gwasanaethau ar-lein y BBC. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar awgrymiadau perthnasol eraill a wnaed yn ystod ein rhaglen waith *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, fel rheolau ar amledd hysbysebion a chyfeiriadau masnachol mewn cynnwys, i sicrhau bod ein dull gweithredu'n parhau i fod yn effeithiol ac yn gymesur mewn marchnad sy'n newid.

## Mae achos da dros fwrw ymlaen i adnewyddu'r drwydded

Yn gyffredinol, rydym o'r farn y gallai'r trwyddedeion presennol barhau i gyfrannu at gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus am gost sy'n gynaliadwy'n fasnachol yn ystod cyfnod nesaf y drwydded, gan ystyried manteision strategol ehangach posibl y trwyddedau. Dylai'r diwygiadau deddfwriaethol y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn disgwyl eu gwneud y flwyddyn nesaf gryfhau cynaliadwyedd y trwyddedau yn ystod cyfnod nesaf y drwydded drwy wella manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Nodwn hefyd y gall fod newidiadau eraill y mae angen eu hadlewyrchu yn y trwyddedau sy'n deillio o newidiadau arfaethedig i'r fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Byddem yn disgwyl gweithio gyda thrwyddedigion i sicrhau bod unrhyw newid yn y dyfodol yn gynaliadwy ac yn parhau i gyfrannu'n ddigonol at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Am y rhesymau hyn, nid ydym yn gwneud argymhelliad bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn defnyddio ei bwerau gwneud gorchmynion i ddileu neu ddiwygio amodau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y trwyddedau neu i rwystro adnewyddu'r trwyddedau.

# 2. Cefndir yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ein barn ar allu'r rhai sy'n dal trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 i gyfrannu at gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig am gost sy'n gynaliadwy'n fasnachol dros y cyfnod trwyddedu nesaf o 10 mlynedd.

## Cefndir y drefn trwyddedu darlledu gwasanaeth cyhoeddus

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r gwasanaethau Sianel 3 a Sianel 5 trwyddedig, sydd wedi eu dynodi'n sianeli gwasanaeth cyhoeddus mewn statud. Ar gyfer gwylwyr teledu, mae hyn yn golygu'r brif sianel a ddarperir gan ITV yn Lloegr a gororau'r Alban, ITV Cymru Wales, UTV yng Ngogledd Iwerddon ac STV yng nghanolbarth a gogledd yr Alban. Ar wahân i GMTV, gwasanaeth brecwast Sianel 3 ledled y Deyrnas Unedig, mae gwasanaethau Sianel 3 yn rhanbarthol yn Lloegr a'r Alban, ac yn genedlaethol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, sy'n golygu y bydd elfennau o'r amserlen deledu yn wahanol yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw, yn fwyaf nodedig ar gyfer rhaglenni newyddion. Mae gwasanaeth Sianel 5 yn wasanaeth ar draws y Deyrnas Unedig i gyd.

2.2 Y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, mae ITV, STV a Channel 5 hefyd yn gweithredu gwasanaethau rhaglenni ar-alw fel ITV Hub, STV Player a My5.[5] Mae ganddynt hefyd drwyddedau masnachol safonol ar gyfer eu sianeli eraill fel ITV+1, ITV2, 5 USA, ac STV+1 yn ogystal â darparu gwasanaethau ar-lein, ar eu gwefannau eu hunain ac ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol amrywiol.


### Pwy sy'n berchen ar drwyddedau Sianel 3 a Sianel 5

2.3 Mae 15 trwydded Sianel 3 ranbarthol. Dros y blynyddoedd, mae perchnogaeth wedi cydgrynhoi, yn fwyaf diweddar pan wnaethom gymeradwyo'r newid rheolaeth ar gyfer trwydded Sianel 3 yng Ngogledd Iwerddon ar ôl i ITV plc (ITV) brynu UTV Limited yn 2016.[6] Mae'r holl drwyddedau rhanbarthol yn Lloegr a'r Alban, a'r trwyddedau cenedlaethol yng Nghymru a Gogledd Iwerddon bellach yn eiddo i is-gwmnïau naill ai STV neu ITV.

[5] Mae rhestr lawn o'r gwasanaethau ar-alw sy'n cael eu rheoleiddio gan Ofcom i'w gweld yma: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0021/67710/list_of_regulated_video_on_demand_services.pdf

[6] Ofcom, Change of Control of the Channel 3 Licence for Northern Ireland: Review under s.351 of the Communications Act, May 2016.

**Ffigur 2.1: Map yn dangos ardaloedd trwydded Sianel 3 yn y gwledydd a'r rhanbarthau**




2.4 Ar ben hynny, mae ITV Broadcasting Limited yn berchen ar y drwydded frecwast sy'n darlledu ledled y wlad yn rhwng 6am a 9:25am.

2.5 Mae trwydded Sianel 5 ledled y Deyrnas Unedig yn eiddo i Channel 5 Broadcasting Limited, un o is-gwmnïau Paramount Global.

## Rhwymedigaethau a buddion y drwydded

2.6 Fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae trwyddedeion Sianel 3 a Sianel 5 yn rhwym wrth amodau trwydded nad ydynt wedi eu gosod ar drwyddedigion teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill. Bwriad y rhwymedigaethau ychwanegol hyn yw sicrhau bod y rhai sy'n dal trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 yn cyfrannu at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel y nodir yn adran 264 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf). Yn gyfnewid am hynny, mae'r trwyddedeion yn cael buddion, ar ffurf amlygrwydd o fewn cyfeiryddion rhaglenni electronig (EPGs) a mynediad breintiedig at sbectrwm (teledu daearol digidol neu DDT). Caiff y cyfnewidiad hwn o rwymedigaethau a buddion ei alw weithiau yn 'gompact darlledu gwasanaeth cyhoeddus'.

2.7 Bwriedir i ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus gael eu cyflawni gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y cyd yn hytrach nag unrhyw drwyddedai unigol[7] a byddant yn darparu[8]:

- rhaglenni teledu sy'n delio ag amrywiaeth eang o bynciau;
- gwasanaethau teledu sy'n diwallu anghenion ac sy'n bodloni diddordebau cynifer o gynulleidfaoedd gwahanol ag sy'n ymarferol;
- gwasanaethau teledu sydd â chydbwysedd priodol, o ran eu natur a'u pynciau, er mwyn diwallu anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd; a
- rhaglenni sy'n cynnal safonau cyffredinol uchel (gan gynnwys o ran cynnwys, ansawdd rhaglenni ac uniondeb golygyddol)

2.8 Mae'r cynllun statudol yn rhagweld y bydd cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn sicrhau'r amcanion a nodir yn adran 264(6) y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys darparu teledu gwasanaeth cyhoeddus sydd, gyda'i gilydd, yn addysgu, yn diddanu ac yn hysbysu, yn adlewyrchu gweithgarwch diwylliannol yn y Deyrnas Unedig a'i hamrywiaeth ac yn hwyluso, i raddau priodol, ddealltwriaeth ddinesig a thrafodaeth deg a gwybodus ar newyddion a materion cyfoes.

2.9 Mae gan bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus hefyd gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus unigol sydd wedi ei nodi mewn deddfwriaeth, ynghyd â rhwymedigaethau penodol pellach sydd wedi eu nodi yn eu trwyddedau darlledu.[9] Mae gan y rhai sy'n dal trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 yr un cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus, sef darparu amrywiaeth o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel.[10] Mae'r rhwymedigaethau trwydded darlledu gwasanaeth cyhoeddus penodol ar gyfer Sianeli 3 a 5 wedi eu crynhoi isod ac mae'r gofynion meintiol presennol wedi eu nodi'n ddiweddarach yn yr adroddiad hwn:

- rhwymedigaethau rhaglenni sy'n canolbwyntio ar ychydig o genres penodol, sef newyddion (ar lefel y Deyrnas Unedig, y gwledydd a'r rhanbarthau) a materion cyfoes, lle mae lluosogrwydd darpariaeth yn cael ei werthfawrogi'n benodol fel rhywbeth sy'n hanfodol i ddemocratiaeth sy'n gweithio'n dda;
- rhwymedigaethau a luniwyd i ysgogi cynhyrchu ar draws y wlad (h.y. i wneud rhaglenni y tu allan i Lundain), yn ogystal â rhai i sicrhau buddsoddi mewn rhaglenni newydd a pharhad sector cynhyrchu annibynnol bywiog (h.y. drwy osod cwotâu mewn perthynas â chynyrchiadau gwreiddiol ac annibynnol a gofynion cod ymarfer); a

---

[7] Y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sydd, gyda'i gilydd, yn cyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig ("dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus") yw'r rhai sy'n darparu gwasanaethau Sianel 3 (ITV ac STV), Channel 4, Channel 5, S4C a'r BBC. Er bod holl sianeli teledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus (BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, BBC Alba, BBC Scotland, BBC News, CBBC, CBeebies, BBC Parliament, BBC Red Button), dim ond prif sianeli pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill sydd â'r statws hwn. Mae'r BBC wedi cyhoeddi y gallai rhai o sianeli teledu'r BBC a restrir ddod yn rhai ar-lein yn unig yn y dyfodol.

[8] Adran 264(4) o'r Ddeddf.

[9] Mae y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn, ond mae Sianeli 3 a 5 hefyd yn gweithredu sianeli portffolio fel CiTV, ITV2 a 5*, ynghyd â gwasanaethau ar-alw fel STV Player, sydd hefyd yn cyfrannu at gyflawni dibenion Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

[10] Adran 265(2) o'r Ddeddf

- rhwymedigaethau nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnwys, fel y rhwymedigaethau ar y trwyddedigion Sianel 3 rhanbarthol i wneud trefniadau rhwydweithio. Mae'r trefniadau hyn yn golygu y gall cynnwys a gomisiynir neu a gynhyrchir gan un trwyddedai fod ar gael i'r lleill i'w ddarlledu, fel bod y gwasanaethau gyda'i gilydd yn darparu rhwydwaith cenedlaethol, sy'n gallu cystadlu â gwasanaethau teledu eraill ledled y wlad. Mae rhwymedigaethau darpariaeth hefyd, sy'n berthnasol i'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ac sydd wedi eu dylunio i sicrhau'r argaeledd ehangaf posibl ar draws y Deyrnas Unedig ar gyfer gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- Mae'r trwyddedeion hefyd yn gorfod talu ffioedd trwydded uwch sy'n daladwy i Ofcom na darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Rhaid iddynt hefyd gyfrannu at yr Archif Teledu Genedlaethol a chydymffurfio â rhwymedigaethau darparu y bwriedir iddynt sicrhau bod eu gwasanaethau ar gael ar rwydweithiau eraill yn rhad ac am ddim i gynulleidfa mor eang ag sy'n ymarferol bosibl.

## Pwrpas yr adroddiad hwn a'r camau nesaf

2.10 Mae'r adroddiad hwn i'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi ein barn ar allu'r trwyddedigion presennol i gyfrannu at gyflawni dibenion DGC ar gost sy'n gynaliadwy'n fasnachol dros gyfnod nesaf y drwydded.

2.11 Ar ôl derbyn yr adroddiad hwn, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddefnyddio ei bwerau gwneud gorchmynion i rwystro adnewyddu trwydded. Gallant hefyd ddefnyddio eu pwerau gwneud-gorchmynion i:

a) ddiwygio cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5

b) dileu neu atal cynnwys unrhyw amod trwydded sy'n ofynnol dan y Ddeddf

c) diwygio'r cwotâu cynhyrchu annibynnol sydd wedi eu cynnwys yn y trwyddedau

d) newid manyleb cynyrchiadau gwreiddiol at ddibenion y cwota cynyrchiadau gwreiddiol yn y trwyddedau

2.12 Gellir gwneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer pob un o'r tri chategori trwydded. Mae penderfyniad ynghylch trwyddedau rhanbarthol Sianel 3 yn berthnasol i bob un ohonynt ni waeth pwy sy'n berchen ar y trwyddedau. Rhaid i unrhyw orchymyn o dan adran 230 o'r Ddeddf i atal adnewyddu trwydded gael ei wneud erbyn 30 Mehefin 2023.[11]

Gall gorchymyn i adnewyddu trwyddedau fod yn berthnasol i'r canlynol:

- Pob un o'r 15 trwydded Sianel 3 ranbarthol; a/neu
- Y drwydded frecwast; a/neu
- Trwydded Sianel 5.

2.13 Os na fydd gorchymyn yn atal adnewyddu, byddwn yn bwrw ymlaen â'r broses aildrwyddedu a nodir yn y Ddeddf. Byddwn yn penderfynu a fyddwn yn caniatáu unrhyw

[11] Mae'r pŵer i wneud gorchmynion o dan adran 230 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol, sy'n golygu bod yn rhaid i ddau Dŷ'r Senedd gymeradwyo drafft cyn iddo gael ei wneud.

gais adnewyddu a gyflwynir gan ddeiliaid trwyddedau presennol.[12] Rhaid i'r trwyddedeion wneud cais i adnewyddu erbyn 30 Ebrill 2023. Os na chaiff trwyddedau eu hadnewyddu, rhaid i ni eu hail-hysbysebu. Rydym yn egluro hyn ymhellach yn Adran 5 yr adroddiad hwn. Rydym hefyd yn rhoi rhagor o fanylion am y fframwaith cyfreithiol a'r broses aildrwyddedu yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

## Ein dull wrth lunio'r adroddiad hwn

2.14 Mae ein hadroddiad yn rhoi sylw i ddau fater:

a) Cyfraniad posibl trwyddedeion Sianel 3 a Sianel 5 at gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y cyfnod trwyddedu nesaf.

b) Yng ngoleuni'r manteision a gânt, a fydd yn gynaliadwy'n fasnachol i'r rhai sy'n dal y drwydded ar hyn o bryd ddarparu gwasanaethau sy'n cyfrannu at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

2.15 Fe wnaethom gyhoeddi llythyr agored ar 29 Hydref 2021, yn gofyn am wybodaeth gan y rhai sy'n dal trwyddedau ar hyn o bryd, ac unrhyw barti arall sydd â diddordeb, i'n helpu i lunio barn ar y materion hyn. Gofynnwyd a fyddai'r rhwymedigaethau presennol yn parhau'n gynaliadwy dros y cyfnod trwyddedu nesaf, ac os na fyddai, sut dylai'r rhwymedigaethau newid. Roeddem wedi gofyn i'r trwyddedigion egluro pam y byddai unrhyw newid i rwymedigaethau yn eu galluogi i gyfrannu at gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

2.16 Cawsom ymatebion i'n llythyr agored gan, neu ar ran, y trwyddedeion presennol: ITV, STV a Channel 5. Mae eu cyflwyniadau'n sail i'r adroddiad hwn, ochr yn ochr â gwybodaeth ychwanegol roedden ni wedi gofyn amdani ganddynt er mwyn cyfrannu at ein dadansoddiad, yn ogystal â data ac ymchwil perthnasol gan y gynulleidfa a'r diwydiant.

2.17 Yn adrannau dilynol yr adroddiad hwn, rydym yn mynd i'r afael â'r ddau fater uchod ac yn egluro ein rhesymau. Rydym hefyd yn cyfeirio at y cyd-destun rheoleiddio ehangach a diwygiadau arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r sector darlledu.

### Datblygiadau perthnasol yn y farchnad a rheoleiddio

2.18 Mae'r fframwaith rheoleiddio y mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn gweithredu ynddo wedi ei nodi'n bennaf yn y Ddeddf ac fe'i cynlluniwyd ar adeg pan oedd bron y cyfan o'r gwylio yn 'fyw', drwy'r set deledu ac ar nifer cyfyngedig o sianeli darlledu sefydledig. Mae'r manteision a'r rhwymedigaethau rheoleiddiol a roddir ar ITV, STV a Channel 5 fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn berthnasol i'w prif sianeli teledu yn unig.

2.19 Mae gan gynulleidfaoedd ddewis llawer ehangach erbyn hyn ynghylch pa gynnwys i'w wylio a sut i'w wylio. Ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o sianeli darlledu gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr masnachol fel Sky, mae gwasanaethau ar-lein, fel

[12] Mae'r rhesymau dros benderfynu peidio ag adnewyddu trwydded wedi eu nodi yn adrannau 216 (5) i (7) y Ddeddf.

Netflix ac YouTube, bellach ar gael yn eang ar setiau teledu clyfar a dyfeisiau eraill sydd wedi eu cysylltu. Mae hyn yn gadarnhaol ar y cyfan i gynulleidfaoedd, y mae eu dewis o adloniant a gwybodaeth wedi ehangu. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y gystadleuaeth am sylw gwylwyr wedi rhoi pwysau ar ddarlledwyr, gan wasgu ar refeniw a'i gwneud yn anoddach iddynt gynnal eu darpariaeth bresennol. Mae pandemig Covid-19 wedi cyflymu cyflymder y newid yn ôl pob golwg, gyda mwy byth yn defnyddio gwasanaethau ar-lein. Fe wnaethom grynhoi'r heriau sy'n wynebu darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a'n barn ar sut i'w ddiogelu ar gyfer y degawd nesaf, yn Sgrin Fach, Trafodaeth Fawr. Roedd hyn yn seiliedig ar raglen waith eang gyda mewnbwn gan gynulleidfaoedd, cynhyrchwyr, darlledwyr a'r diwydiant ehangach.

2.20 Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ymateb i'r heriau maent yn eu hwynebu drwy fuddsoddi mewn gwasanaethau ar-lein, a thrwy amrywio eu ffrydiau refeniw i leihau dibyniaeth ar refeniw hysbysebu darlledu traddodiadol (er enghraifft, drwy dyfu busnesau cynhyrchu). Fodd bynnag, er mwyn cefnogi'r ymdrechion hyn, gwnaethom nifer o argymhellion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig i foderneiddio'r fframwaith rheoleiddio sy'n sail i'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn iddo allu ymdopi â chyflymder y newid mewn technoleg ac arferion gwylio cynulleidfaoedd.

Fe wnaethom argymell bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol ar frys yn y meysydd a ganlyn.

- Moderneiddio amcanion y system bresennol i ddarparu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus sy'n cynnig gwerth cymdeithasol, yn dod â phobl at ei gilydd, yn adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig, yn cefnogi'r economi greadigol ac ar gael yn gyffredinol, ac yn cael ei ddarparu ar alw yn ogystal â thrwy ddarpariaeth deledu sy'n cael ei darlledu.
- Sicrhau amlygrwydd ac argaeledd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ar lwyfannau teledu sydd wedi eu cysylltu: mynnu bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnig y gwasanaethau ar-alw maent yn dibynnu arnynt i gyflawni eu rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus i lwyfannau teledu sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin, a mynnu bod y llwyfannau hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r cynnwys ar gael yn unol ag amcanion statudol newydd, gan gynnwys amcan i sicrhau bod cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu gwneud yn ddigon amlwg. Byddai'r gofynion hyn yn cael eu hategu gan bwerau gorfodi newydd i Ofcom a swyddogaeth datrys anghydfod i ategu'r gwaith o ddod i delerau teg os bydd angen.
- Diweddaru'r rheolau ar gynhyrchu cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus er mwyn i ofynion darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol fod yn berthnasol i deledu a ddarlledir a gwasanaethau ar-alw.
- Diweddaru'r rheolau i ganiatáu i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus gael mwy o hyblygrwydd wrth gyflawni eu gofynion ar draws gwasanaethau darlledu ac ar-alw; a rôl a phwerau rheoleiddio Ofcom i sicrhau ein bod yn parhau i ddal darparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn atebol drwy amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad.

### Diwygiadau arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r fframwaith rheoleiddio

2.21 Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei phapur gwyn, *Up Next*, yn nodi ei gweledigaeth ar gyfer y sector darlledu, gan egluro ei bwriadau polisi ar gyfer bil cyfryngau sydd ar y gweill. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu cyflwyno'r bil i'r Senedd yn y sesiwn Seneddol bresennol.

2.22 Mae nifer o gynigion yn y papur gwyn a allai effeithio ar Sianeli 3 a 5, gan gynnwys cynlluniau i ddiweddaru cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus i symleiddio amcanion a dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a rhoi mwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o ran sut gallant gyflawni eu cylchoedd gwaith (er enghraifft, ar draws gwasanaethau darlledu ac ar-alw). Yn ei bapur gwyn, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd wedi dweud ei bod yn cytuno ar yr angen am reolau newydd i sicrhau bod gwasanaethau ar-alw dynodedig darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang ac yn amlwg. Bydd hyn yn sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael ac yn hawdd dod o hyd iddo ar lwyfannau teledu sydd wedi eu cysylltu, fel setiau teledu clyfar.

2.23 Ar ben hynny, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried a ddylai cymhwyster ar gyfer y drefn digwyddiadau rhestredig[13] fod o fudd sy'n benodol i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Ar wahân, maent hefyd yn bwriadu ystyried a ddylid ymestyn y drefn i gynnwys hawliau digidol.

2.24 Mae'n debygol y bydd angen diweddaru trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 i adlewyrchu'r newidiadau sy'n deillio o'r bil cyfryngau, er na ellir gwybod yr union ofynion ar hyn o bryd. At ddibenion adnewyddu, yr unig newidiadau y gallwn eu gwneud i'r trwyddedau presennol yw (i) yr ardal mae'r drwydded yn berthnasol iddi[14]; (ii) yr oriau darlledu; a (iii) y telerau ariannol.[15] Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i newidiadau eraill, fel rhwymedigaethau trwydded, gael eu gweithredu drwy broses ar wahân. Fel arall, adnewyddir y trwyddedau ar y telerau presennol. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y trwyddedeion a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb ynghylch pryd gellid rhoi unrhyw newid o'r fath ar waith, a byddem yn disgwyl ymgynghori ynghylch unrhyw newid perthnasol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

2.25 I raddau, mae'r cyd-destun newidiol mae'r trwyddedeion yn debygol o weithredu ynddo yn ystod cyfnod nesaf y drwydded yn cynyddu ansicrwydd y dadansoddiad a'r amcanestyniadau a wnawn yn yr adroddiad hwn. O ystyried hyn a'r cyfnod o amser rydym yn ei ystyried – dros ddegawd i'r dyfodol, rydym o reidrwydd wedi seilio ein dadansoddiad ar amcangyfrifon rhesymol ac ystodau gwerth, yn seiliedig ar yr wybodaeth sydd ar gael i ni ar hyn o bryd.

### Ein gwaith ar hysbysebu a chynnwys a gefnogir yn fasnachol

2.26 Yn ein datganiad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, nodwyd bod rheoleiddio cynnwys sy'n destun trefniadau masnachol, fel nawdd a gosod cynnyrch, yn ogystal â rheolau ar amserlennu hysbysebion ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, hefyd yn berthnasol i gynaliadwyedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr i'n hymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2020 i Ofcom ystyried y rheolau a'r canllawiau ynghylch trefniadau o'r fath. Yn ein datganiad, roeddem wedi dweud y byddem yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch yr awgrymiadau penodol a wnaed ac wedi tynnu sylw at y ffaith ein bod hefyd yn gweithio gyda'r diwydiant, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a rheoleiddwyr eraill ar faterion perthnasol eraill, gan gynnwys cyfyngiadau newydd ar hysbysebu cynnyrch â braster uchel, halen a siwgr a hysbysebion ar-lein.

2.27 O ran cynnwys sy'n amodol ar drefniadau masnachol, rydym yn cynnal ymchwil ymysg cynulleidfaoedd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o agweddau at gyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni a safbwyntiau ar y cyfaddawd posibl rhwng dod i gysylltiad â mwy o

[13] Digwyddiadau a restrwyd yw digwyddiadau sydd ag arwyddocâd cenedlaethol ym marn Ysgrifennydd Gwladol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Nod y drefn yw sicrhau bod y digwyddiadau hyn ar gael am ddim i gynifer o bobl â phosibl. O'r herwydd, dim ond darlledwyr sy'n 'gymwys', drwy fodloni meini prawf darpariaeth neu argaeledd penodol, sy'n cael eu cynnwys yn y drefn.

[14] Ar gyfer y trwyddedau Sianel 3 rhanbarthol.

[15] Mae telerau ariannol yn daliadau mae trwyddedeion Sianel 3 a Sianel 5 yn eu gwneud i Drysorlys EM. Maent yn cynnwys swm 'bid ariannol' blynyddol a chanran o refeniw cymwys. Ar hyn o bryd, mae'r telerau ariannol ar gyfer pob trwydded yn cynnwys taliad bid ariannol blynyddol o £10,000 a chyfradd canran refeniw cymwys o 0%, fel y nodir yn ein penderfyniad yn 2014.

hysbysebu a mwy o frandio mewn rhaglenni. Mae unrhyw newid i'n dull gweithredu yng nghyswllt cyfeiriadau masnachol yn debygol o gael ei ystyried yn fanteisiol i bob darlledwr. Rydym yn disgwyl y bydd gennym ddiweddariad ar y gwaith hwn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

2.28 Rydym hefyd yn edrych ar y rheolau sy'n pennu amlder a hyd hysbysebion ar deledu sy'n cael ei ddarlledu. Mae'r rheolau hyn yn gymhleth, gyda chyfyngiadau ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n fwy llym na'r rheolau sydd wedi eu gosod ar gyfer darlledwyr masnachol. Rydym wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda rhanddeiliaid, ac rydym yn disgwyl gallu amlinellu ein camau nesaf yn ddiweddarach yr haf hwn.

# 3. Cyfraniadau Sianeli 3 a 5 at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus

3.1 Yn yr adran hon rydym yn edrych ar y cyfraniadau at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus mae'r trwyddedeion wedi eu gwneud hyd yma ac yn rhoi sylwadau ynghylch a ydyn ni'n credu y gallan nhw gyfrannu at gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus dros gyfnod nesaf y drwydded, sef deng mlynedd.

> Rydyn ni o'r farn y gall y rhai sy'n dal y trwyddedau gyfrannu at gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus dros gyfnod nesaf y drwydded:
>
> - Rhwymedigaethau'r drwydded bresennol yw'r cyfraniadau sylfaenol i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus rydym yn eu disgwyl ar gyfer cynulleidfaoedd, ac mae gan Sianeli 3 a 5 enw da am eu cyflawni.
> - Yn ychwanegol at rwymedigaethau'r drwydded, mae'r trwyddedeion yn cyfrannu at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, er enghraifft drwy fuddsoddi mewn amrywiaeth eang o gynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig. At ei gilydd, mae sianeli Sianel 3 a Sianel 5 yn dal yn boblogaidd gyda gwylwyr ac mae cynulleidfaoedd yn dal yn fodlon ar y ffordd maent yn darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
> - Pwysleisiodd y rhai a oedd yn dal trwyddedau fod angen gwell manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus (fel amlygrwydd ar gyfer gwasanaethau teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-lein) er mwyn parhau i gyflawni rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy gydol cyfnod nesaf y drwydded. Rydyn ni'n ystyried y cyflwyniadau hyn yn Adran 4, lle rydyn ni'n egluro pam rydyn ni o'r farn y gallai'r set bresennol o rwymedigaethau trwydded fod yn gynaliadwy'n fasnachol dros gyfnod nesaf y drwydded.

## Sut rydym wedi cynnal ein hasesiad

3.2 Er mwyn cynnal ein hasesiad o gyfraniadau Sianel 3 a 5 at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, rydym wedi gwneud y canlynol:

- defnyddio ein hadolygiad cyfnodol diwethaf o'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chasgliadau ein rhaglen waith Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr a oedd yn edrych ar sut i adnewyddu system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y Deyrnas Unedig ar gyfer y degawd nesaf;
- asesu pa mor dda mae'r trwyddedeion wedi cyflawni'r rhwymedigaethau penodol yn y trwyddedau ers 2015 (dechrau'r cyfnod trwyddedu presennol);
- dadansoddi data'r diwydiant, gan gynnwys gwylio'r sianeli yn ogystal â'n hymchwil cynulleidfa, sy'n gofyn i wylwyr pa mor dda mae'r rhai sy'n dal trwyddedau wedi darparu darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'u safbwyntiau ar genres rhaglenni penodol, fel newyddion; ac
- ystyried safbwyntiau'r trwyddedeion ar gynaliadwyedd masnachol y rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac yng ngoleuni hynny, a ddylai lefel bresennol y rhwymedigaethau

newid dros gyfnod nesaf y drwydded. Mae ein dadansoddiad llawn o gynaliadwyedd masnachol yn Adran 4 yr adroddiad hwn.

3.3 Y tro diwethaf i ni edrych ar sut roedd y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni'r amcanion a'r dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus oedd yn 2019, gan adolygu'r cyfnod rhwng 2014 a 2018. Yn ein hadolygiad pum mlynedd o'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus, daethom i'r casgliad bod y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni'r cylch gwaith statudol yn gyffredinol ond y byddai cynnal y lefel a'r amrywiaeth bresennol o raglenni yn heriol.

3.4 Rydym hefyd yn adrodd bob blwyddyn ar gydymffurfiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus â'r prif ymrwymiadau o ran darpariaeth a rhaglenni yn eu trwyddedau. Cafodd yr adroddiad cydymffurfio blynyddol diwethaf ei gyhoeddi ym mis Awst 2021, a oedd yn adrodd hyd at ddiwedd 2020.[16] Roedd amgylchiadau eithriadol pandemig Covid-19 yn golygu bod rhai diffygion yn rhai o gwotâu rhaglenni Sianel 3 yn 2020, ac rydym yn eu hegluro'n nes ymlaen yn yr adran hon o'r adroddiad.[17]

3.5 Mae gweddill yr adran hon yn nodi prif ganfyddiadau ein dadansoddiad. Pan fo'n berthnasol, rydym yn edrych ar Sianeli 3 a 5 yng nghyd-destun darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol neu drwy eu cymharu â sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus eraill. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau data drwy gydol ein dadansoddiad, gan gynnwys ymchwil cynulleidfa a metrigau'r diwydiant. Ar gyfer rhai ffynonellau data, ystyrir bod yr holl drwyddedeion Sianel 3 yn cynrychioli 'Channel 3' (e.e. data BARB). Ar gyfer ymchwil cynulleidfa arall, rydym yn gofyn cwestiynau i wylwyr lle rydym yn cyfeirio at frandiau Sianel 3 fel y'u gelwir ym mhob ardal wahanol (e.e. ITV/STV/UTV/ITV Cymru Wales). Cyn belled ag y bo modd, rydym yn cyfeirio at y gwahaniaethau hyn drwy'r adran hon.

## Mae'r cynnydd mewn gwylio ar-lein wedi effeithio ar Sianel 3 a Sianel 5 ond maent yn dal yn wasanaethau poblogaidd ymysg gwylwyr

3.6 Er gwaethaf y twf mewn gwylio ar-lein, roedd gwylio teledu byw yn dal i gyfrif am bron i hanner (47%) yr holl wylio clyweledol yn 2020 yn y Deyrnas Unedig[18] ac roedd bron i 8 o bob 10 o bobl yn gwylio sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar set deledu bob wythnos yn 2020.[19] Cafodd pwysigrwydd parhaus sianeli teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei atgyfnerthu yn ystod pandemig Covid-19, wrth i bobl chwilio am newyddion dibynadwy a throi at raglenni adloniant i gael rhywfaint o ysgafnder yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae

[16] Nid oedd data gan ddarlledwyr ar gyfer cydymffurfio yn 2021 ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, bwriedir cyhoeddi adroddiad cydymffurfio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus 2022 ym mis Awst 2022.
[17] Yn ogystal, oherwydd effaith Covid-19 ar ddarlledwyr (er enghraifft, mewn perthynas â'r ffaith bod yn rhaid atal llawer o gynyrchiadau ar anterth y pandemig), mewn rhai achosion, rydym yn defnyddio 2019 yn ein dadansoddiad o dueddiadau, yn hytrach na 2020 a oedd yn flwyddyn anarferol ar gyfer gwylio, cynhyrchu ac amserlennu rhaglenni.
[18] Mae Ofcom yn amcangyfrif cyfanswm yr holl wylio sain/fideo. Wedi ei fodelu o ddata BARB, Comscore a TouchPoints.
[19] BARB, cyfanswm teledu. Meini prawf cyrhaeddiad: Dros 15 munud yn olynol ar sail gwylio cyfunol 7 diwrnod.

teledu sy'n cael ei ddarlledu yn dal yn arbennig o bwysig i lawer o gynulleidfaoedd, fel i rai gwylwyr hŷn a'r rhai nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd.

3.7 Fel holl sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus y Deyrnas Unedig a theledu a ddarlledir yn gyffredinol, mae cyrhaeddiad prif sianeli teledu ITV, STV a Channel 5 wedi gostwng dros y degawd diwethaf, wrth i gynulleidfaoedd dreulio mwy o amser yn gwylio cynnwys ar-lein. Ers dechrau'r cyfnod trwyddedu presennol yn 2015, mae cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog Sianel 3 wedi gostwng 8.4 pwynt canran ac mae Channel 5 wedi gostwng 3 phwynt canran. Mae'r duedd hon wedi bod yn fwyaf amlwg ymysg cynulleidfaoedd iau, y mae eu harferion gwylio'n dod yn fwyfwy amrywiol. Mae hyn yn amlwg yn Ffigur 3.1 lle mae'r gostyngiad mewn cyrhaeddiad ymysg pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed wedi bod yn llawer mwy na'r boblogaeth oedolion ehangach.

**Ffigur 3.1: Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd %**

| | Sianel 3 2015 | Sianel 3 2020 | Sianel 5 2015 | Sianel 5 2020 | STV 2015 | STV 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pob unigolyn (4+)** | 57.8 | 49.4 ↓ | 35 | 32 ↓ | 61.2 | 52.1 ↓ |
| **16-24 oed** | 41.2 | 26.4 ↓ | 21.7 | 12.2 ↓ | 41.1* | 24.2* |

*Ffynhonnell: BARB. Cyrhaeddiad wythnosol ar gyfartaledd % 15 munud a mwy yn olynol. Rhwydwaith ac ardal ITV Scotland (ar gyfer STV). Nid yw'n cynnwys sianeli +1 awr. * Mae maint y sampl yn fach, felly dylid trin y ffigurau fel rhai dangosol yn unig.*

3.8 Roedd yr amser gwylio cyfartalog a dreuliodd cynulleidfaoedd yn gwylio prif sianeli darlledu ITV a Channel 5 yn 2020 yn debyg i 2015. Fodd bynnag, dylanwadwyd ar wylio teledu yn 2020 gan gyfyngiadau Covid-19 a'r ffaith bod mwy o bobl gartref. Roedd yr amser gwylio ar gyfer y ddwy sianel wedi gostwng rhywfaint yn 2021.[20] Yn yr Alban, mae STV wedi gweld cynnydd o 7% mewn ffigurau gwylio er 2015, gyda chynulleidfaoedd yn gwylio bron i 37 munud ar gyfartaledd bob dydd yn 2021. Cafodd y cynnydd hwn ei sbarduno gan gynnydd mewn gwylio ymysg y rhai sy'n 45 oed a hŷn wrth i'r rhai sydd dan 45 oed wylio'n llai aml.[21]

3.9 Er gwaethaf y gostyngiad mewn cyrhaeddiad, mae'r sianeli'n dal yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd. Mae ychydig dros hanner yr holl unigolion yn y Deyrnas Unedig yn gwylio Sianel 3 bob wythnos a thros draean yn gwylio Sianel 5. Mae tri chwarter (75%) y bobl sydd wedi gwylio'r sianel yn ystod y chwe mis diwethaf yn fodlon ar ITV/STV/UTV ac mae dwy ran o dair (67%) yn dweud yr un fath am Channel 5.[22]

3.10 Mae'r trwyddedeion, fel pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus a llawer o'r diwydiant ehangach, wedi ymateb i newidiadau yn arferion cynulleidfaoedd drwy fuddsoddi yn eu gwasanaethau ar-alw. Mae ein hymchwil yn dangos bod 49% o gartrefi yn y Deyrnas

[20] BARB.
[21] BARB, ardal ITV Scotland. Nid yw BARB yn gwahanu ffigurau gwylio STV ac ITV ac mae'r cyfan yn cael ei fesur fel ITV. Mae ITV yn yr Alban yn cael ei ddefnyddio yma fel procsi ar gyfer STV.
[22] Traciwr PSM Ofcom 2021.

Unedig wedi dweud bod ITV Hub neu STV Player yn cael ei ddefnyddio yn eu cartref i wylio cynnwys. Dywedodd un o bob 4 aelwyd yr un fath ar gyfer gwasanaeth ar-alw My5 Channel 5.[23]

## Mae sianeli 3 a 5 wedi cyflawni rhwymedigaethau eu trwydded i raddau helaeth hyd yma

3.11 Yn yr adran hon rydym yn edrych i weld a yw'r cwotâu presennol wedi cael eu cyflawni gan y rhai sy'n dal y trwyddedau. Mae pob trwydded yn cynnwys nifer o gwotâu rhaglenni a chynhyrchu fel sy'n ofynnol o dan statud ac i gefnogi rhwymedigaeth pob trwyddedai i gyfrannu at gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r rhwymedigaethau trwydded hyn yn rhan allweddol o'u cyfrifoldebau fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, a dyma'r lefel isaf o gyfraniadau rydym yn disgwyl i'r trwyddedai eu cyflawni. Mae lefel y rhwymedigaethau hyn wedi aros yn weddol sefydlog ers nifer o flynyddoedd. Fel rhan o Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr, roeddem wedi argymell i Lywodraeth y Deyrnas Unedig y dylid canolbwyntio mwy ar gymysgedd o gwotâu meintiol a mesurau ansoddol i sicrhau cyfraniadau priodol at ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus gan wasanaethau darlledu ac ar-alw, mewn fframwaith rheoleiddio sy'n ymgorffori darparu ar sail y galw. Byddai hyn yn moderneiddio'r fframwaith ac o bosibl yn sicrhau canlyniadau gwell i gynulleidfaoedd heb leihau cyfraniadau cyffredinol at ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus.

3.12 Mae pob trwyddedai Sianel 3 a Sianel 5 cenedlaethol a rhanbarthol yn rhwym wrth gwotâu yn ei drwydded, sy'n mynnu eu bod yn sicrhau:

a) bod isafswm oriau fesul blwyddyn galendr o raglenni newyddion cenedlaethol a rhyngwladol o ansawdd uchel yn cael eu darlledu;

b) bod isafswm oriau o raglenni materion cyfoes cenedlaethol a rhyngwladol o ansawdd uchel yn cael eu darlledu;

c) bod isafswm oriau o raglenni rhanbarthol a chenedlaethol yn cael eu darlledu sydd o ddiddordeb arbennig i bobl sy'n byw yn yr ardal y darperir y gwasanaeth ar ei chyfer;

d) cyfran, dros amser, o raglenni sy'n cael eu darlledu yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer unrhyw un neu bob un o wasanaethau rhanbarthol a chenedlaethol Sianel 3 / Sianel 5;

e) bod cyfran o raglenni rhwydwaith gwreiddiol, yn ôl gwariant ac amser, yn cael eu gwneud y tu allan i'r M25;

f) bod cyfran o raglenni cymwys, dros amser, yn cael ei neilltuo i amrediad ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol ac i lunio, adolygu a chydymffurfio â chod comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol;

g) bod trefniadau rhwydweithio cymeradwy ar waith (Sianel 3 yn unig); a

h) bod cyfran yr allbwn a ddarlledir yn cael ei isdeitlo, ei arwyddo a'i ddisgrifio'n llafar.

[23] Traciwr Technoleg 2021 Ofcom.

3.13 Gan ddefnyddio'r wybodaeth rydym yn ei chasglu ar gyfer ein hadroddiad blynyddol ar gydymffurfiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, rydym wedi edrych yn ôl dros gyfnod y drwydded i asesu a yw amodau'r drwydded wedi cael eu bodloni rhwng 2015 a 2020.[24] Yn gryno, mae'r holl rwymedigaethau wedi cael eu bodloni, ac eithrio rhai gofynion rhaglennu rhanbarthol a chenedlaethol, a gafodd eu methu o ganlyniad i Covid-19. Rydyn ni'n trafod hyn ymhellach yn ddiweddarach yn yr adran hon. Mae'r gofynion meintiol ac a ydynt wedi cael eu cyflawni rhwng 2015 a 2020 yn cael eu hadlewyrchu yn Ffigur 3.2. Rydym yn nodi gwir gyflawniad o ran cwotâu yng ngweddill yr adran hon, sydd hefyd i'w gweld yn ein Hadroddiad Cydymffurfio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus diwethaf.

[24] Roedd argaeledd data cyfres amser ar gydymffurfiad trwydded frecwast Sianel 3 â chwotâu cynhyrchu gwreiddiol ac annibynnol yn gyfyngedig. O ganlyniad, rydym wedi defnyddio data 2019 ar gyfer ein hasesiad; rydym o'r farn bod hyn yn ddull cymesur o ystyried nad yw'r amserlen brecwast yn newid yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

**Ffigur 3.2: Prif ofynion trwydded ansoddol Sianeli 3 a 5**[25]

| Gofynion trwydded | Gofyniad wedi ei fodloni gan Sianel 3 | Gofyniad wedi ei fodloni gan Sianel 5 |
|---|---|---|
| **Newyddion** | **Ydi**<br>365 awr y flwyddyn. (125 yn ystod oriau brig);<br>60 munud bob diwrnod yn yr wythnos waith yn y drwydded Brecwast. | **Ydi**<br>280 awr y flwyddyn (120 yn ystod oriau brig) |
| **Materion Cyfoes** | **Ydi**<br>43 awr y flwyddyn (35 yn ystod oriau brig);<br>1 awr yr wythnos yn y drwydded Brecwast;<br>78 awr y flwyddyn (35 yn ystod oriau brig) yn nhrwydded Gororau'r Alban. | **Ydi**<br>130 awr y flwyddyn (10 yn ystod oriau brig) |
| **Rhaglenni rhanbarthol a chenedlaethol (newyddion a darpariaeth nad ydyw'n newyddion)** | **Rhai gofynion heb eu bodloni**[26]<br>Mae'r swm yn amrywio yn ôl trwydded | **amh.** |
| **Rhaglenni gwreiddiol** | **Ydi**<br>65% (85% yn ystod oriau brig);<br>80% yn y drwydded Brecwast. | **Ydi**<br>50% (45% yn ystod oriau brig) |
| **Cyfran ac amrediad yr oriau a'r gwariant cymwys a wnaed y tu allan i'r M25** | **Ydi**<br>35% y tu allan i'r M25;<br>**amh.** mewn trwydded Brecwast. | **Ydi**<br>10% y tu allan i'r M25 |
| **25% (o'r oriau cymwys) wedi eu neilltuo i gynyrchiadau annibynnol** | **Ydi** | **Ydi** |
| **Llunio, adolygu a chydymffurfio â chod comisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol** | **Ydi** | **Ydi** |
| **Sicrhau bod trefniadau rhwydweithio cymeradwy ar waith** | **Ydi**<br>**amh.** mewn trwydded Brecwast | **amh.** |
| **Is-deitlau, disgrifiadau sain ac iaith arwyddion** | **Ydi**<br>90% ag is-deitlau, 10% â disgrifiadau sain, 5% ag iaith arwyddion | **Ydi**<br>80% ag is-deitlau, 10% â disgrifiadau sain, 5% ag iaith arwyddion |

3.14 Rhaid i'r trwyddedeion Sianel 3 rhanbarthol fod â threfniadau rhwydweithio y cytunwyd arnynt, sydd, ymhlith pethau eraill, yn galluogi'r gwasanaethau Sianel 3 rhanbarthol, yn eu cyfanrwydd, i fod yn set o wasanaethau ledled y Deyrnas Unedig sy'n gallu cystadlu'n

[25] Mae'r tabl yn dangos y gofynion yn ystod y cyfnod rhwng 2015 a 2020. Mae trwydded Sianel 5 bellach wedi cael ei diweddaru i fynnu 20 awr o newyddion yn ystod oriau brig (gyda'r cyfnod brig rhwng 6pm a 10.30pm). Mae cydymffurfiad â gofynion yn cael ei gyfrifo gan Ofcom gan ddefnyddio data gwariant ac allbwn darlledwyr.
[26] Oherwydd Covid-19, gweler esboniad pellach yn ddiweddarach yn yr adran hon.

effeithiol â gwasanaethau teledu eraill yn y Deyrnas Unedig. O dan y trefniadau hyn, mae cynnwys rhwydwaith Sianel 3 yn cael ei rannu rhwng ITV ac STV fel deiliaid trwydded Sianel 3.


3.15 Trafodir gofynion rhaglenni rhanbarthol neu genedlaethol i wneud cynnwys sydd wedi ei anelu at gynulleidfaoedd mewn rhanbarth neu wlad benodol, ac sydd o ddiddordeb penodol iddynt, yn ddiweddarach yn yr adran hon.

3.16 Mae trwydded brecwast Sianel 3 yn cynnwys gofynion gwahanol ar gyfer newyddion a materion cyfoes fel y nodir yn Ffigur 3.2. Oherwydd ei horiau darlledu cyfyngedig (saith diwrnod yr wythnos rhwng 6am a 9:25am) nid oes gofyniad cynhyrchu gwreiddiol yn benodol ar gyfer oriau brig na gofynion cynhyrchu yn y gwledydd a'r rhanbarthau yn y drwydded hon.

3.17 Yng ngweddill yr adran hon, rydym yn edrych yn fanylach ar agweddau allweddol ar berfformiad Sianeli 3 a 5, yn benodol ym maes newyddion a materion cyfoes, cynyrchiadau gwreiddiol a'u buddsoddiad ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau.

## Mae Sianel 3 a Sianel 5 yn ffynonellau newyddion a materion cyfoes gwerthfawr i gynulleidfaoedd

3.18 Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd o'r farn mai darparu newyddion dibynadwy a chywir yn y Deyrnas Unedig yw elfen bwysicaf y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[27] Yn Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr daethom i'r casgliad y dylai barhau i fod yn rhan ganolog o system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol wrth iddi barhau i chwarae rhan bwysig yn y gwaith o helpu pobl i gyfrannu at gymdeithas ddemocrataidd wybodus.




[27] Traciwr PSM Ofcom 2021.

Ffynhonnell: *Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion, 2022. Cwestiwn: Gan feddwl yn benodol am < llwyfan>, pa rai o'r canlynol ydych chi'n eu defnyddio i gael newyddion y dyddiau hyn? Sail: Pob oedolyn 16+: 2792.*

3.19 Teledu yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio amlaf o hyd ar gyfer newyddion, gyda thri o bob pedwar o bobl yn ei ddefnyddio'n rheolaidd, ac yna ffynonellau rhyngrwyd fel cyfryngau cymdeithasol, gwefannau ac apiau.[28] Mae'r defnydd o deledu ar gyfer newyddion yn fwyaf cyffredin ymysg pobl hŷn, a'r rhyngrwyd yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio amlaf ar gyfer newyddion ymysg pobl ifanc rhwng 16 a 34 oed a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Roedd Covid-19 hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd newyddion cywir a dibynadwy. O wythnos gyntaf mis Mawrth 2020, y cyfryngau sefydledig, gan gynnwys darlledwyr, papurau newydd a radio, oedd y ffynhonnell newyddion a gwybodaeth fwyaf poblogaidd am bandemig Covid-19.[29]

3.20 Yn ein hymchwil, rydyn ni'n gofyn i gynulleidfaoedd pa mor dda maent yn meddwl mae newyddion wedi cael ei ddarparu; roedd saith o bob 10 o wylwyr rheolaidd Sianel 3 wedi rhoi sgôr uchel i'w rhaglenni newyddion o ran ymddiriedaeth, cywirdeb ac ansawdd uchel, ac roedd tua chwech o bob 10 o wylwyr rheolaidd Sianel 5 wedi rhoi sgôr uchel i'w rhaglenni newyddion ar gyfer yr un nodweddion.[30] Yn 2021, newyddion Sianel 3 oedd â'r gyfran teledu uchaf ond un o'r holl sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus (y tu ôl i BBC One), ac mae'n parhau i ddenu mwy o wylwyr o gefndiroedd C2DE na'r rhai yn ABC1.[31]

3.21 At ei gilydd, mae newyddion ar y teledu yn dal yn boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd ac mae cynnwys newyddion Sianeli 3 a 5 yn apelio at gynulleidfaoedd o gefndiroedd gwahanol.

## Mae'r trwyddedeion yn darparu llawer iawn o raglenni newyddion a materion cyfoes

3.22 Roedd Sianel 3 a Sianel 5 yn cyrraedd neu'n rhagori'n gyson ar eu cwotâu newyddion rhwydwaith ym mhob blwyddyn o gyfnod y drwydded hyd yn hyn.[32] Er enghraifft, yn 2020, darlledodd ITV 469 awr o oriau rhwydwaith o newyddion a dangosodd Channel 5 bron i 300 awr.[33] Yn yr un flwyddyn, roedd Channel 5 wedi rhagori'n sylweddol ar ei gwota drwy'r dydd ar gyfer cynnwys materion cyfoes, gan ddarparu dros 500 awr. Yn yr un modd, aeth ITV y tu hwnt i'w gwota ar gyfer materion cyfoes, gan ddarlledu 150 awr. Mae STV yn darlledu rhaglenni newyddion cenedlaethol ITV ac yn darparu ei raglen newyddion

[28] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2022.
[29] Ofcom, Newyddion a gwybodaeth am Covid-19: defnydd ac agweddau 2020 – gweler y set data rhyngweithiol.
[30] Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2022.
[31] BARB, nid yw'n cynnwys unrhyw sianel +1 awr. Meini prawf cyrhaeddiad: 3+ munud yn olynol. Roedd cyfran newyddion oedolion Sianel 3 o'r holl deledu yn 2021 yn 15%, a 25% oedd cyfran BBC One. Penderfynir ar grŵp economaidd-gymdeithasol yn sgil nifer o ffactorau gan gynnwys incwm a galwedigaeth. Yn gyffredinol, mae'r grwpiau uchaf, sef A a B, yn fwy tebygol o fod yn gefnog, mae'r grwpiau C1 ac C2 yn y canol, ac mae'r grwpiau isaf, sef D ac E, yn llai tebygol o fod yn gefnog.
[32] Mae rhaglenni 'Rhwydwaith' yn cyfeirio at raglenni sy'n cael eu dangos ledled y Deyrnas Unedig. I'r gwrthwyneb, dim ond mewn rhannau penodol o'r Deyrnas Unedig y mae rhaglenni 'nad ydynt yn rhai rhwydwaith' y gwledydd a'r rhanbarthau yn cael eu dangos.
[33] Ofcom/Darlledwyr. Nid yw data ITV yn cynnwys rhaglenni newyddion a ddarlledwyd yn ystod oriau ITV Breakfast. Y cwotâu yw 365 awr ar gyfer Sianel 3 a 280 awr ar gyfer Sianel 5.

blaenllaw 30 munud ei hun am 6pm bob diwrnod o'r wythnos, gyda bwletinau penodol eraill yn yr Alban drwy gydol y dydd a'r penwythnos.

3.23 O'i gymharu â 2015, roedd buddsoddiad ITV mewn newyddion rhwydwaith gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf yn 2019 wedi gostwng 2%, er bod hyn yn dal i gyfrif yn gyson am tua [✂]% o'i wariant cyffredinol ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y Deyrnas Unedig dros y cyfnod hwn.[34] Roedd y gwariant wedi cynyddu yn 2020, ond roedd hyn yn debygol o fod oherwydd mwy o sylw i bandemig Covid-19.

3.24 Ym mis Ionawr eleni, cyhoeddodd ITV ei fod yn newid ei allbwn newyddion rhwydwaith min nos. Ers hynny, mae wedi cynyddu ei raglen newyddion rhwydwaith min nos o 30 munud i awr. Dywedodd y byddai'r newid hwn yn golygu rhagor o fuddsoddiad yn ei ddarpariaeth newyddion gyda gohebwyr newydd yn cael eu cyflogi i ddarparu rhagor o sylw o wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Rydym o'r farn bod hyn yn dangos ymrwymiad parhaus ITV i newyddion rhwydwaith.

3.25 Mae gwariant Channel 5 ar raglenni newyddion sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi cynyddu'n gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda'r gwariant yn 2019 wedi codi 5% ers 2015, er bod hyn yn parhau i gynrychioli cyfran lai o gyfanswm gwariant ar ddeunydd gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf nag ITV, sef [✂]% yn 2019. Roedd ein hymchwil Arolwg Cael Gafael ar Newyddion yn dangos bod Channel 5 yn dal ymysg yr 20 prif ffynhonnell newyddion, gydag 1 o bob 12 oedolyn yn ei ddefnyddio ar gyfer newyddion. O'r grwpiau demograffig gwahanol, mae'n perfformio orau ymysg cynulleidfaoedd 65 oed a hŷn a'r rhai o gefndiroedd C2DE.[35]

3.26 Ym mis Medi 2021, fe wnaethom gymeradwyo cais Channel 5 i amrywio ei rwymedigaeth newyddion i gyflwyno darllediad newydd sy'n para awr o 5pm ymlaen. Roedd yn gobeithio y byddai'n ychwanegu dyfnder ac ehangder at ei ddarpariaeth ac yn apelio ymhellach at gynulleidfaoedd anoddach eu cyrraedd fel menywod mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol DE. Mae cynulleidfa newyddion oedolion Channel 5 eisoes yn cynnwys cyfran uchel o'r rhai yng ngrwpiau economaidd-gymdeithasol DE (35% o'r oedolion sy'n gwylio'r newyddion min nos yn DE). Hyd yma, mae'r newid hwn yn dangos canlyniadau cadarnhaol gan fod y rhaglen un awr newydd wedi gweld cynnydd yn y gyfran a'r gynulleidfa gyfartalog, ar draws pob oedran.[36] Yn yr un modd ag ITV, mae'n ymddangos bod y newid hwn yn dangos ymrwymiad parhaus trwyddedeion i newyddion, y tu hwnt i ofynion trwydded penodol.

[34] Ofcom/darlledwyr. Mae'r data wedi cael eu mynegi mewn termau nominal.
[35] BARB.
[36] BARB. Yn cynnwys sianeli +1.

### Mae ITV a Channel 5 wedi cynyddu eu buddsoddiad mewn rhaglenni materion cyfoes

3.27 Diffinnir rhaglenni materion cyfoes fel rhaglenni sy'n cynnwys esboniad a dadansoddiad o ddigwyddiadau a materion cyfoes, a newyddiaduraeth ymchwiliol.[37] Mae'r holl sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi gweld gostyngiad yng nghyfanswm y bobl sy'n gwylio rhaglenni materion cyfoes yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond cyfran gwylio ITV yw'r mwyaf o hyd.

3.28 Yn 2020, cynhyrchodd ITV dros dair gwaith yn fwy o raglenni materion cyfoes na'r isafswm sy'n ofynnol o dan ei drwydded. Mae'r cynnwys hwn yn rhan o'r amserlen o raglenni sy'n cael eu rhannu rhwng STV ac ITV o dan eu trefniadau rhwydweithio, ochr yn ochr â rhaglenni materion cyfoes STV, gan gynnwys *Scotland Tonight*, sy'n cael eu darlledu fin nos o no Lun i nos Iau bob wythnos.

3.29 Yn wahanol i'w wariant ar newyddion, roedd gwariant ITV ar raglenni materion cyfoes sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi cynyddu'n sylweddol ([✂] %) rhwng 2015 a 2019, gyda chynnydd pellach llai [✂] %)rhwng 2019 a 2020. Yn 2019, roedd hyn yn ganran fechan ([✂]%) o wariant gwreiddiol cyffredinol ITV ar ddeunydd o'r Deyrnas Unedig a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf.

3.30 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Channel 5 wedi cynhyrchu bron i bedair gwaith y nifer sylfaenol o oriau sy'n ofynnol yn ei thrwydded ar gyfer rhaglenni materion cyfoes. [✂%] o gyfanswm gwariant Channel 5 yn 2019 ar ddeunydd a ddarlledwyd am y tro cyntaf a wariwyd ar gynnwys materion cyfoes, a chynyddodd y gwariant hwn yn sylweddol ([✂%]) rhwng 2015 a 2019.[38] Mae cyfran gyfartalog gwylio rhaglenni materion cyfoes Channel 5 wedi cynyddu rhwng 2015 a 2021. Mae'r cynnydd yn y gyfran yn arbennig o gryf ymysg oedolion C2DE, tra bod cyfran materion cyfoes ITV a BBC One wedi gostwng ar gyfer pob grŵp cynulleidfa dros yr un cyfnod.[39]

## Mae newyddion rhanbarthol a chenedlaethol ar Sianel 3 yn dal yn bwysig o ran dewis cynulleidfaoedd a gwasanaethu pob cynulleidfa ar draws y Deyrnas Unedig

### Mae Sianel 3 wedi cyflawni ei gwota rhaglenni rhanbarthol a chenedlaethol i raddau helaeth

3.31 Mae trwyddedau rhanbarthol Sianel 3 yn cynnwys gofynion am symiau cyffredinol o raglenni rhanbarthol, gan gynnwys newyddion, deunydd nad yw'n newyddion ac, mewn rhai achosion, materion cyfoes. Yn yr adran hon rydym yn egluro a yw'r amodau wedi cael eu bodloni dros gyfnod y drwydded ac yn ystyried data perthnasol arall, fel gwylio

[37] Nid yw materion cyfoes yn cynnwys rhaglenni materion defnyddwyr, sy'n cael eu dosbarthu ar wahân (fel rhaglenni ffeithiol cyffredinol).
[38] Ofcom/darlledwyr. Mae'r data wedi cael eu cyflwyno mewn termau nominal.
[39] BARB. Mae sianeli'n cynnwys sianeli â darllediad 1 awr yn flaenorol, lle bo hynny'n briodol.

newyddion rhanbarthol a chenedlaethol. Mae Ffigurau 3.3 a 3.4 yn crynhoi rhwymedigaethau rhaglennu cenedlaethol a rhanbarthol trwyddedau Sianel 3.

**Ffigur 3.3: Gofynion rhaglenni rhanbarthol yn Lloegr a Gororau'r Alban (cyfartaledd wythnosol)**

| Ardal ITV | Rhanbarthol yn gyffredinol | Newyddion rhanbarthol | Materion cyfoes rhanbarthol (os nodir) | Rhanbarthol heb fod yn newyddion | Cynhyrchwyd yn y rhanbarth |
|---|---|---|---|---|---|
| **Anglia ITV, Central ITV, Meridian ITV, Tyne Tees ITV, Westcountry ITV, Yorkshire ITV** | 2 awr 30 munud | 2 awr 15 munud | amh. | 15 munud | 99% |
| **Channel Television, Granada ITV** | 3 awr 20 munud | 3 awr 5 munud | amh. | 15 munud | 99% |
| **London ITV (yn ystod yr wythnos) a LWT (ar y penwythnos)** | 2 awr 35 munud (yn ystod yr wythnos) 45 munud (ar y penwythnos) | 2 awr 23 munud (yn ystod yr wythnos) 42 munud (ar y penwythnos) | amh. | 12 munud (yn ystod yr wythnos) 3 munud (ar y penwythnos) | 99% |
| **Border ITV** | 3 awr 20 munud 4 awr 35 munud (is-ranbarth Gororau'r Alban) | 3 awr 5 munud | 1 awr 7 munud (cyfanswm deunydd nad yw'n newyddion) (is-ranbarth Gororau'r Alban) | 15 munud 1 awr 30 munud (is-ranbarth gororau'r Alban) | 60% |

**Ffigur 3.4: Gofynion rhaglennu yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Chanol/Gogledd yr Alban (cyfartaledd wythnosol)**

| Ardal | Cyffredinol | Newyddion | Materion cyfoes (os nodir hynny) | Deunydd nad yw'n newyddion | Cynhyrchwyd yn y wlad/rhanbarth |
|---|---|---|---|---|---|
| **ITV Cymru Wales** | 5 awr 30 munud | 4 awr | 47 munud (o gyfanswm nad yw'n newyddion) | 1 awr 30 munud | 99% |
| **UTV** | 6 awr | 4 awr | 33 munud (o gyfanswm nad yw'n newyddion) | 2 awr | 90% |
| **STV** | 5 awr 30 munud | 4 awr | 33 munud (o gyfanswm nad yw'n newyddion) | 1 awr 30 | 90% (STV Canolbarth) 70% (STV Gogledd) |


3.32 O ran bodloni eu cwotâu cyffredinol ar gyfer rhaglenni rhanbarthol a newyddion, roedd yr holl drwyddedeion yn cyflawni eu rhwymedigaethau ar wahân i rai enghreifftiau yn 2020. Roedd y diffygion hyn yn deillio o'r amgylchiadau unigryw a achoswyd gan bandemig Covid-19. Mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud cyntaf, roeddem yn cydnabod yr heriau penodol a wynebodd gwneuthurwyr rhaglenni a darlledwyr o ran cadw eu gweithluoedd yn ddiogel. Fe wnaethom gyhoeddi cyngor rheolaidd i bob darlledwr, a nodi sut byddem yn cymryd agwedd resymol a phragmatig at gydymffurfio yn ystod y cyfnod hwn. Rydym yn egluro'r diffygion perthnasol gan y rhai sy'n dal trwyddedau Sianel 3 isod.[40]

3.33 Yn ogystal â gofynion newyddion, mae gan drwyddedau Sianel 3 hefyd ofynion i ddarparu rhaglenni cenedlaethol a rhanbarthol heb fod yn rhaglenni newyddion, ac mae'r rhain yn cynnwys rhwymedigaethau sy'n gosod cwotâu penodol ar gyfer materion cyfoes yng nghyswllt Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

3.34 Mae Ffigur 3.5 yn dangos sut mae Sianel 3 wedi cyflawni ei gofynion cyffredinol o ran rhaglenni rhanbarthol/cenedlaethol ers dechrau cyfnod y drwydded yn 2015. Roedd ITV Cymru Wales (36 munud yn brin), UTV (54 munud yn brin) ac STV (30 munud yn brin) i gyd wedi methu eu cwotâu cyffredinol ar gyfer rhaglenni rhanbarthol yn 2020, lle cafodd gwasanaethau newyddion rhanbarthol eu blaenoriaethu yn ystod Covid-19. Yn achos ITV Cymru Wales, roedd y diffyg ar draws cynnwys nad oedd yn rhaglenni newyddion a materion cyfoes, ac yn achos UTV roedd y diffyg yn effeithio ar raglenni nad oedd yn rhaglenni newyddion. Yn rhanbarth Gororau'r Alban, methwyd y cwota ar gyfer deunydd nad yw'n newyddion a materion cyfoes, gydag ITV yn dosbarthu dros 75% o'r cwota. Yn achos STV, roedd yr effaith ar raglenni newyddion a rhai nad oedd yn rhaglenni newyddion (dim ond 5 munud yn llai na'r cwota oedd deunydd nad oedd yn newyddion).

[40] Fe wnaethom gyhoeddi'r nodiadau a ganlyn i ddarlledwyr ynghylch y coronafeirws sy'n cynnwys canllawiau ar gynnwys darlledu sy'n ymwneud â'r coronafeirws. 12 Ebrill 2021; 9 Tachwedd 2020; 26 Mai 2020; 27 Ebrill 2020 a 23 Mawrth 2020.

**Ffigur 3.5: Perfformiad Sianel 3 o ran gofynion cyffredinol rhaglenni rhanbarthol (oriau cyfartalog yr wythnos)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. *Rydym yn defnyddio data am raglenni rhanbarthol a gyflwynir gan drwyddedai Granada (rhanbarth gogledd orllewin Lloegr), sydd â'r cwota uchaf ar gyfer rhaglenni rhanbarthol o'i gymharu â thrwyddedeion eraill yn Lloegr, fel procsi ar gyfer cydymffurfiad pob rhanbarth yn Lloegr. Ni ddangosir gororau'r Alban ar wahân yn y siart hwn.*


3.35 Mae rhai o'r trwyddedau rhanbarthol yn cynnwys ardaloedd is-ranbarthol, gyda chwotâu mewn perthynas â'r ardaloedd is-ranbarthol hyn. Er enghraifft, yn nhrwydded Gororau'r Alban mae isranbarth yr Alban a Gororau'r Alban sydd â chwota ar gyfer rhaglenni rhanbarthol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ac sydd o ddiddordeb arbennig i bobl sy'n byw yn yr is-ranbarth. Mae rhai trwyddedau'n cyfyngu ar faint o raglenni rhanbarthol y gellir eu rhannu rhwng is-ranbarthau yn yr ardal drwyddedig. Ar draws rhanbarthau ITV Lloegr a Gororau'r Alban, roedd mwy o rannu cynnwys rhwng is-ranbarthau oherwydd effaith pandemig Covid-19 a arweiniodd at fethu cyflawni'r cwotâu ar gyfer rhaglenni is-ranbarthol penodol mewn pum isranbarth (allan o 13) yn 2020.

## Mae newyddion rhanbarthol a chenedlaethol Sianel 3 yn bwysig i gynulleidfaoedd

3.36 Mae darparu newyddion cenedlaethol a rhanbarthol drwy drwyddedau Sianel 3 yn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar raglenni sy'n berthnasol i'w gwlad a/neu ranbarth yn y Deyrnas Unedig. Mae hefyd yn sicrhau bod y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn darparu amrywiaeth o leisiau golygyddol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â chystadleuaeth i'r BBC.

3.37 Yn ystod pandemig Covid-19, tynnwyd sylw at rôl a phwysigrwydd penodol trwyddedeion Sianel 3 o ran darparu newyddion a gwybodaeth ar draws y Deyrnas Unedig pan oedd rheolau a chyfyngiadau'n amrywio yn ôl gwlad a/neu ranbarth, ac roedd cynulleidfaoedd yn chwilio am wybodaeth gywir a oedd yn berthnasol iddynt.

**Ffigur 3.6: Y ffynonellau newyddion sy'n cael eu defnyddio amlaf ar gyfer cynulleidfaoedd sy'n cael gafael ar newyddion am eu rhanbarth/gwlad**




Ffynhonnell: *Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion, 2022*
*Cwestiwn: O ba un o'r ffynonellau canlynol rydych chi'n cael newyddion am yr hyn sy'n digwydd yn eich Gwlad (Cymru/Yr Alban/Gogledd Iwerddon_ / Rhanbarth (Lloegr) y dyddiau hyn?*
*Sail: Pob oedolyn 16+ sy'n defnyddio Teledu/Papurau Newydd/Radio/Y Rhyngrwyd/ Cylchgronau ar gyfer newyddion yn 2022 - Lloegr=1727, Yr Alban=326, Cymru=325, Gogledd Iwerddon=287*

3.38 Mae'r trwyddedau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn mynnu bod pob trwyddedai'n darparu mwy o oriau o newyddion bob blwyddyn o'i gymharu â'r trwyddedeion sy'n gwasanaethu rhanbarthau Lloegr. Mae ein hymchwil Arolwg Cael Gafael ar Newyddion yn dangos mai STV yn yr Alban ac UTV yng Ngogledd Iwerddon yw'r ffynonellau newyddion sy'n cael eu defnyddio amlaf gan gynulleidfaoedd sy'n dymuno cael gafael ar newyddion am eu gwlad (ar draws pob llwyfan). Mae ITV yn ail i BBC One yng Nghymru a Lloegr.

3.39 Yn yr Alban, er bod cyrhaeddiad wythnosol cyfartalog STV wedi gostwng (cynnydd o 10 pwynt canran) ers 2015, mae wedi gweld twf bach yn ei gynulleidfa newyddion heb fod ar y rhwydwaith dros yr un cyfnod, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2020 cyn lefelu'n ôl i gynulleidfa gyfartalog o 462,000 fesul darllediad yn 2021.

3.40 Mae mwy o bobl yn yr Alban yn gwylio newyddion STV am 6pm yn awr na darllediad newyddion cenedlaethol y Deyrnas Unedig ar BBC One ar yr un pryd. Mae'r rhaglen newyddion hon yn perfformio'n arbennig o dda gyda chynulleidfaoedd hŷn o gefndiroedd C2DE. Mae hefyd wedi perfformio'n well na rhaglen newyddion heb fod ar y rhwydwaith y

BBC, *Reporting Scotland*, a ddangosir ar BBC One am 6.30pm yn yr Alban, gyda chyfran gwylio oedolion o 34% yn ystod 2021 o'i chymharu â 32% ar BBC One.[41]

3.41 Roedd ein hadroddiad diwethaf yn 2012 yn dangos bod gwasanaethau newyddion heb fod yn rhai rhwydwaith Sianel 3 ym mhob gwlad, a rhanbarth Gororau'r Alban, sy'n cynnwys Cumbria, Dumfries a Galloway, Gororau'r Alban a Northumberland, yn cael cyfran uwch o wylwyr nag yn y rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr a'r Deyrnas Unedig drwyddi draw. Mae hyn yn dal yn wir ar wahân i Gymru, sydd bellach yn debyg i ranbarthau gogledd orllewin, dwyrain a de orllewin Lloegr.[42]

**Ffigur 3.7: Bwletinau newyddion rhanbarthol Sianel 3 yn gynnar fin nos – cyfrannau gwylio ym mhob cartref (2021)**




Ffynhonnell: *BARB. Yn seiliedig ar raglenni newyddion rhanbarthol sy'n dechrau rhwng 1755 a 1835. Dros 10 munud. Sianel 3 o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio sianeli awr yn ddiweddarach). Y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar ddadansoddiad amser o ddydd Llun i ddydd Gwener 1800-1829.*

3.42 Roedd STV ac ITV wedi nodi bod cynnwys rhanbarthol yn gost cyfle (rydym yn trafod hyn ymhellach yn adran nesaf yr adroddiad hwn). Yn ystod ein rhaglen waith Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr yn ddiweddar, dywedodd rhanddeiliaid y byddai darparu cynnwys lleol mewn perygl heb y gofynion sydd ar ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[43] Nid yw'r trwyddedeion wedi cynnig gostyngiadau yn eu darpariaeth ranbarthol ac mae'n parhau i fod yn rhan bwysig o'u darpariaeth i gynulleidfaoedd.

[41] BARB.

[42] Ofcom, Trwyddedu Sianel 3 a Sianel 5, Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 229 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau. 2012.


[43] Er enghraifft, ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban i'r ymgynghoriad lle dywedwyd na fydd cynnwys lleol o'r Alban, yn enwedig newyddion a materion cyfoes, yn gwneud elw masnachol er eu bod yn denu cynulleidfaoedd lleol uchel. Gan hynny, mae'n annhebygol o gael ei ddarparu yn y dyfodol gan unrhyw un o'r newydd-ddyfodiaid i'r farchnad fyd-eang. Gwnaed pwyntiau cysylltiedig yn: ; Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, tudalen 7-8; ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, tudalen 3.

## Mae buddsoddiad o dan bwysau, ond mae Sianel 3 a Sianel 5 yn parhau i ganolbwyntio ar gynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n hanfodol i gynulleidfaoedd

3.43 Roedd ein hymchwil Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr yn cydnabod y rôl bwysig mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i'w chwarae o ran sicrhau bod amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel yn y Deyrnas Unedig yn adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig. Yn benodol, canfu ein hymchwil fod cynulleidfaoedd yn rhoi bri mawr ar ddarparu *'amrywiaeth eang o wahanol fathau o raglenni, fel drama, comedi, adloniant neu chwaraeon'* a *'rhaglenni a wneir ar gyfer cynulleidfaoedd y Deyrnas Unedig'* fel y nodweddion mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu darparu orau yn gyffredinol.[44]

3.44 Mae'r trwyddedau'n cynnwys rhwymedigaethau i ddarparu cyfran benodol o raglenni sy'n cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer y gwasanaeth dan sylw. Gall hyn gynnwys deunydd newydd sy'n cael ei wneud ar gyfer y gwasanaeth (a elwir hefyd yn 'ddeunydd gwreiddiol sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf'), cynnwys sy'n cael ei ailddarlledu neu ei gaffael. Roedd y trwyddedeion, gan gynnwys STV, yn parhau i fodloni eu rhwymedigaeth rhaglenni gwreiddiol ar draws eu sianeli, ac yn aml roeddent yn darparu mwy na'r hyn sy'n ofynnol o dan y drwydded, fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 3.8. Er enghraifft, yn 2020, roedd 92% o raglenni ITV (drwy'r dydd) yn gynnwys gwreiddiol o'i gymharu â'r cwota o 65%.

**Ffigur 3.8: Cwotâu Cynhyrchu Gwreiddiol (drwy'r dydd, %)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae cydymffurfiad â chwotâu cynhyrchu gwreiddiol yn cael ei gyfrifo mewn amser rhedeg (h.y. heb gynnwys hysbysebion na deunydd hyrwyddo) a phan fo'n berthnasol nid yw'n cynnwys rhaglenni siopa gartref ac oriau cau.*

[44] Traciwr PSM Ofcom 2021

## Mae buddsoddiad mewn cynnwys gwreiddiol sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi cael ei gynnal yn gyffredinol

3.45 Mae'r ddarpariaeth o gynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn ddangosydd allweddol ar gyfer sut mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi darparu cynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant, bywydau a diddordebau yn y Deyrnas Unedig, yn ogystal â chefnogi diwydiant cyfryngau llewyrchus ledled y Deyrnas Unedig.

3.46 Rhwng 2015 a 2019, roedd allbwn darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar draws y Deyrnas Unedig o gynnwys gwreiddiol newydd o'r Deyrnas Unedig wedi aros yn weddol sefydlog, sef cyfanswm o tua 32,000 awr y flwyddyn. Gostyngodd hyn i 29,800 awr yn 2020 wrth i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddelio â chanlyniadau Covid-19. Yn ystod y blynyddoedd hyn, fodd bynnag, roedd Sianel 3[45] a Sianel 5, gyda'i gilydd, yn darparu ychydig dros 20% o'r cynnwys gwreiddiol hwn o'r Deyrnas Unedig yn gyson.[46]


3.47 Heb addasu ar gyfer chwyddiant, arhosodd gwariant uniongyrchol cyffredinol ar raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn wastad ar £2.5 biliwn yn 2015 a 2019.[47] Mae hyn yn awgrymu, er gwaethaf pwysau ar gyllidebau, a mwy o gystadleuaeth gan gomisiynwyr rhyngwladol, bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i gynhyrchu cynnwys gwreiddiol ar lefelau gweddol gyson, sydd yn ei dro yn ategu ac yn hyrwyddo sectorau cynhyrchu creadigol a theledu ehangach y Deyrnas Unedig. Y BBC yw'r buddsoddwr mwyaf o hyd mewn cynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig, fel y dangosir yn Ffigur 3.9.

[45] Yn y cyd-destun hwn, rydym yn cyfeirio at gynnwys ar draws y Deyrnas Unedig, felly nid yw hyn yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu gwneud neu eu comisiynu'n benodol ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.

[46] Ofcom/darlledwyr. Mae'r data'n cynnwys oriau rhwydwaith gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf rhwng 2015 a 2020. Nid yw'r rhain yn cynnwys rhaglenni rhanbarthol gan ITV ac STV.

[47] Mewn termau real, mae gwariant uniongyrchol cyffredinol ar raglenni gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng o £2.7 biliwn yn 2015 i £2.5 biliwn yn 2019. Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Data mewn termau real wedi ei fynegi gan ddefnyddio prisiau 2020. Gwariant uniongyrchol yn unig yw'r gwariant, felly nid yw'n cynnwys cyfraniadau trydydd parti at wariant rhaglenni.

**Ffigur 3.9: Gwariant rhwydwaith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys gwreiddiol i'w ddarlledu am y tro cyntaf, yn ôl darlledwr (£m)**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodiadau: Mae'r data wedi cael eu mynegi mewn termau nominal. Nid yw ffigurau gwariant yn cynnwys cyfraniadau trydydd parti at wariant ac nid ydynt yn cynnwys rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau.*


## Mae cynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar ITV a Channel 5 yn cynnwys amrywiaeth eang o bynciau a diddordebau


3.48 Mae gan y rhai sy'n dal trwyddedau ofynion gwahanol o ran nifer y cynyrchiadau gwreiddiol, ond nid yw'r gofynion hyn yn nodi pa genres y mae'n rhaid eu cynhyrchu (ac eithrio newyddion a materion cyfoes). Fodd bynnag, mae darparu cymysgedd o gynnwys i apelio at chwaethau a diddordebau cynulleidfaoedd gwahanol yn un o nodweddion allweddol y cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn unol â hynny, mae ITV a Channel 5 yn darlledu cynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar draws amrywiaeth eang o genres, er bod amrywiaeth ITV ychydig yn ehangach.

3.49 Mae ein data'n dangos bod cymysgedd genres ITV wedi aros yn weddol sefydlog rhwng 2015 a 2019, gyda'r gyfran fwyaf o oriau o gynnyrch sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf y tu allan i newyddion a materion cyfoes yn canolbwyntio ar gynnwys ffeithiol ac adloniant cyffredinol. Dros yr un cyfnod, mae allbwn gwreiddiol Channel 5 sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi dod yn llai eang, gan gyfeirio mwy at gynnwys ffeithiol arbenigol, sef 35% o gyfanswm yr oriau gwreiddiol yn 2019, i fyny o 19% yn 2015. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu ym muddsoddiad Channel 5, sy'n dangos gostyngiad sylweddol mewn gwariant ar adloniant, wedi ei ddisodli gan raglenni ffeithiol arbenigol, a oedd yn cyfrif am gyfran sylweddol( [✂]% )o gyfanswm y buddsoddiad mewn rhaglenni a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf yn 2019, gan gynnwys rhaglenni fel *The Yorkshire Vet.* [48]

[48] Ofcom/darlledwyr.

**Ffigur 3.10: Cymysgedd genres o raglenni rhwydwaith gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf**




*Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Rhaglenni rhwydwaith yn unig felly nid yw'n cynnwys rhaglenni ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau gan ITV ac STV.*

3.50 Yn ogystal â darlledu cynnwys ar draws y Deyrnas Unedig gan ITV (sy'n cyfrannu at gyflawni'r cwota cynyrchiadau gwreiddiol), mae STV hefyd yn darparu ei gynnwys gwreiddiol ei hun i'w ddarlledu am y tro cyntaf ar gyfer yr Alban ar Sianel 3. Yn 2019, roedd y rhan fwyaf o'r oriau gwreiddiol a ddarlledwyd am y tro cyntaf gan STV yn oriau newyddion, sef 79%.

3.51 Mae cymysgedd a swmp y cynnwys gwreiddiol sydd ar gael ar Sianel 3 a 5 yn nodwedd bwysig o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Er bod gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) yn cynnig llawer o gynnwys, nid ydynt yn cynnig yr un gymysgedd o gynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig â gwasanaethau darlledu, gan eu bod yn cynnwys rhaglenni drama a chomedi a gynhyrchir yn yr Unol Daleithiau yn bennaf.[49]

## Mae rhai genres, fel cynnwys sydd wedi ei anelu at blant, yn fwy cyfyngedig

3.52 Yn ein hadolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith mai ychydig o genres penodol sy'n cael eu darparu, gan gynnwys rhaglenni addysgol plant, rhaglenni crefyddol a rhaglenni addysgol ffurfiol.[50]

3.53 Er enghraifft, er nad yw rhaglenni plant (ar gyfer y rhai sydd o dan 16 oed) yn rhwymedigaeth benodol yn nhrwyddedau Sianel 3 na Sianel 5, mae'n rhaid i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ddarparu rhaglenni sy'n cynnwys nifer ac amrywiaeth addas o raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc fel rhan o'u cyfraniadau at gylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

[49] Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - adolygiad pum mlynedd o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (2014-18), tudalen 6.
[50] Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - adolygiad pum mlynedd o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus (2014-18), tudalen 18.

3.54 Yn unol â'r tueddiadau gwylio cyffredinol, mae'r holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi gweld gostyngiad yn yr amser mae plant yn ei dreulio ar gyfartaledd yn gwylio eu rhaglenni penodol i blant. Fodd bynnag, mae'r amser cyfartalog hwn wedi gostwng yn llai na'r amser mae plant yn ei dreulio ar fathau eraill o raglenni a ddarlledir. Yn benodol, roedd cyfran gwylio plant o'r ddarpariaeth rhaglenni plant wedi cynyddu ar Sianel 5 ond wedi gostwng ar Sianel 3.[51]

3.55 Gwelodd Channel 5 gynnydd o 3.8 pwynt canran yng nghyfran y gwylio ar raglenni plant o 2015 i 13.8% yn 2021.[52] O blith y rhieni/gofalwyr yr oedd eu plant yn gwylio rhaglenni plant Channel 5 yn ystod y 6 mis diwethaf, roedd 72% yn rhoi sgôr uchel iddo am raglenni o ansawdd uchel ac roedd 65% yn rhoi sgôr uchel iddo am amrywiaeth eang o gynnwys sy'n cael ei wneud yn y Deyrnas Unedig ar gyfer plant. Mae buddsoddiad Channel 5 mewn cynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi cynyddu ers dechrau cyfnod y drwydded, gan gyrraedd tua £[✂] yn 2019. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu mewn cynnydd mewn oriau plant gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, ac roedd Channel 5 wedi ymrwymo'n wirfoddol i gynhyrchu 50 awr y flwyddyn erbyn 2021. Mae Channel 5 wedi gweithio tuag at yr ymrwymiad hwn, gan gynhyrchu 30 awr yn 2015, 56 awr yn 2018 a 46 awr yn 2019.[53]

3.56 Roedd cyfran Sianel 3 o'r gwylio ymysg plant rhwng 4 a 15 oed ar raglenni plant wedi gostwng o 5.9% yn 2015 i 3.9% yn 2021.[54] Fodd bynnag, mae ITV hefyd yn darparu CITV, gwasanaeth wedi ei dargedu at blant fel rhan o'i bortffolio ehangach o wasanaethau. Mae CITV yn sianel nad yw'n rhan o'r ddarpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sydd wedi ei hanelu at blant rhwng chwech a 12 oed, ac mae ITV ac STV yn cyd-ddarlledu'r ddarpariaeth ar eu prif sianeli dros y penwythnos. Mae'r nifer sy'n gwylio CITV wedi bod yn eithaf sefydlog dros yr un cyfnod, ac roedd ein hymchwil ymysg cynulleidfaoedd yn dangos bod 73% o'r rhai y mae eu plant wedi gwylio CITV yn ystod y chwe mis blaenorol wedi rhoi sgôr uchel iddi am *'raglenni o ansawdd uchel i blant'* a bod 74% wedi rhoi sgôr uchel iddi am *'amrywiaeth eang o gynnwys wedi ei wneud yn y Deyrnas Unedig i blant'*.[55] Roedd ITV, fel Channel 5, hefyd wedi gwneud ymrwymiadau gwirfoddol mewn ymateb i'n hadolygiad o gynnwys Plant[56], gan gynyddu cyllideb CITV bron i 10% yn 2019, a datblygu *The Rundown*, gwasanaeth newyddion a materion cyfoes ar-lein newydd ar gyfer plant rhwng 12 a 15 oed.

## Mae gan Sianel 3 a Sianel 5 rôl bwysig yn y sector cynhyrchu ehangach, yn enwedig yn y gwledydd a'r rhanbarthau

3.57 Roedd ein datganiad Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr yn cynnwys argymhelliad i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer amcan newydd i gefnogi economi greadigol y Deyrnas Unedig.


---

[51] Gwylio Sianel 3 yn benodol ac nid CITV.
[52] BARB. Plant rhwng 4 a 15 oed.
[53] Ofcom/Darlledwyr.
[54] BARB.
[55] Traciwr PSM Ofcom 2021.
[56] Adolygiad o Gynnwys i Blant - Ofcom.

Gallai hyn helpu i sicrhau bod y sector yn parhau i ffynnu, gan greu gwerth economaidd cynaliadwy ar draws gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus rôl unigryw o ran hyrwyddo sectorau creadigol a chynhyrchu'r Deyrnas Unedig. Mae chwaraewyr byd-eang fel Netflix hefyd yn dod yn brif gomisiynwyr cynyrchiadau gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig, gan fuddsoddi $1 biliwn (£779 miliwn) ynddynt yn 2020, 50% yn fwy na'r hyn a wariwyd yn 2019.[57] Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd hwn mewn gwariant gan chwaraewyr byd-eang rhyngwladol a chwmnïau aml-sianel yn y Deyrnas Unedig, mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gyfrif am dros hanner yr holl brif refeniw comisiynu ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol yn y Deyrnas Unedig.[58]

3.58 Mae cefnogaeth darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i sector cynhyrchu ehangach y Deyrnas Unedig yn seiliedig ar ddwy rwymedigaeth allweddol i sicrhau bod dim llai na 25% o gyfanswm y rhaglenni gwreiddiol cymwys yn cael eu neilltuo i ddarlledu amrediad ac amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol.[59] Mae gofynion cynhyrchu rhanbarthol ychwanegol hefyd (y cyfeirir atynt fel 'Gwnaed y tu allan i Lundain') wedi eu sefydlu yn eu trwyddedau, sy'n sicrhau eu bod yn cynhyrchu canran o'r gwariant a'r oriau cymwys y tu allan i'r M25. Mae'r gofynion hyn yn cefnogi ac yn ysgogi'r economïau creadigol yng ngwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac yn sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig. Mae Sianel 3 a Sianel 5 wedi bodloni'r cwotâu hyn yn gyson, ac fel arfer wedi rhagori arnynt, er 2015.

**Ffigur 3.11: Cydymffurfiad y trwyddedai o ran cwota cymwys ar gyfer cynyrchiadau annibynnol (%)[60]**




[57] The Guardian, Netflix to spend $1bn in UK in 2020 on TV shows and films, 25 November 2020.
[58] Adroddiad Oliver & Ohlbaum ar gyfer Pact, 2020. UK Television Production Survey: Financial Census 2020.
[59] Mae'r meini prawf ar gyfer cymhwyso fel "cynhyrchydd annibynnol" yn cynnwys peidio â bod â mwy na 25% yn eiddo i ddarlledwr sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig neu 50% sy'n eiddo i ddau ddarlledwr neu ragor yn y Deyrnas Unedig..
[60] Rydym yn defnyddio data rhaglennu a gyflwynir gan drwyddedai Granada, fel procsi ar gyfer cydymffurfiad pob rhanbarth.

3.59 Mae enghreifftiau o ymrwymiad y trwyddedeion i gynhyrchu ledled y Deyrnas Unedig yn cynnwys:


a) Yn 2018, cyhoeddodd Channel 5 gynllun i gynyddu ei fuddsoddiad mewn cynyrchiadau rhanbarthol, a oedd yn cynnwys cynllun cynhyrchwyr annibynnol rhanbarthol, lle mae comisiynwyr yn cael eu paru â chynhyrchwyr annibynnol bach i'w helpu i ddatblygu syniadau am gynnwys. Cafwyd llwyddiannau nodedig hefyd gan Channel 5 yn Swydd Efrog, gan gynnwys comisiynu *Our Yorkshire Farm* ac *All Creatures Great and Small.*[61]

b) Mae ITV wedi symud nifer o gynyrchiadau y tu allan i'r M25, fel *Tipping Point*, a symudodd i Fryste.[62]

c) Mae STV yn parhau i fod yn rhan hanfodol o gynnyrch sgrin yr Alban a'r farchnad gynhyrchu ehangach, ac mae wedi blaenoriaethu twf ei gangen gynhyrchu ei hun dros gyfnod y drwydded, gan wneud rhaglenni fel *Catchphrase* ar gyfer rhwydwaith Sianel 3 a *Screw* ar gyfer Channel 4 (a ail-gomisiynwyd yn ddiweddar ar gyfer ail gyfres).[63]

3.60 Yn ogystal â chynhyrchu deunydd rhwydwaith y tu allan i Lundain, mae trwyddedau rhanbarthol Sianel 3 yn cynnwys rhwymedigaethau i raglenni rhanbarthol gael eu cynhyrchu'n bennaf yn yr ardal drwyddedig, yn enwedig mewn perthynas â materion cyfoes a newyddion rhanbarthol.[64] Mae'r gofynion 'gwnaed yn yr ardal' hyn i gyd wedi eu bodloni.

**Ffigur 3.12: Cyflawniadau deiliaid trwydded o'r cwotau cynhyrchiadau tu allan i Lundain**




[61] ViacomCBS/Channel 5: tystiolaeth i Bwyllgor Dethol yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar Ddyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, Mehefin 2020, tudalen 6.
[62] ITV gameshow Tipping Point is moving to Bristol, Bristol Live, 2018.
[63] STV: STV Studios prison drama Screw heads back behind bars for a second series on Channel 4.
[64] Ar gyfer y rhan fwyaf o'r ardaloedd trwyddedig yng Nghymru a Lloegr, y gofyniad yw 99%, ac eithrio rhanbarth Gororau'r Alban sydd â gofyniad o 60%. Y gofyniad yng ngogledd Iwerddon yw 90%. Mae gan STV ddyletswydd o 90% yn ei ranbarth Canolog a 70% yn ei ranbarth yn y Gogledd. Gweler Ffigurau 3.3 a 3.4.

## Rhan cynyrchu a rhaglennu mewn amrywiaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin

3.61 Mae'n bwysig cydnabod, yn ogystal â chefnogi a chryfhau'r sector cynhyrchu teledu ac economïau creadigol gwledydd a rhanbarthau'r DU, y gall comisiynau cynhyrchu rhanbarthol hefyd gyfrannu at ddarparu mwy o amrywiaeth ar y sgrin a gweithlu mwy amrywiol ar draws y sector. Gall hyn fod naill ai drwy ddewis golygyddol bwriadol ar ran gwneuthurwyr y rhaglen, neu'n ganlyniad i'r broses gynhyrchu yn unig. At hynny, mae gofynion rhaglennu rhanbarthol Channel 3 (rhaglenni optio allan) wedi'u cynllunio i gyfrannu at gynrychiolaeth ar y sgrin a phortreadu ardal benodol, gan fod yn rhaid i'r cynnwys hwn gynnwys pynciau rhanbarthol a chael ei osod yn y rhanbarth, neu ei gynnwys, neu'n gysylltiedig ag ef.

3.62 Rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i weithluoedd darlledwyr eu hunain fod yn fwy cynrychioliadol o boblogaeth y DU fel y gallant gynrychioli ac adlewyrchu eu gwylwyr yn gywir yn eu hallbwn. Fel rhan o waith ehangach Amrywiaeth mewn Darlledu Ofcom, rydym yn ystyried a ddylid gofyn am raniad daearyddol o ddata amrywiaeth gweithlu darlledwyr. Bydd hyn yn taflu goleuni ar ledaeniad staff darlledu ledled y DU ac yn helpu darlledwyr i ddeall sut mae amrywiaeth eu gweithluoedd yn amrywio yn ôl cenedl a rhanbarth yn y DU.

# 4. Casgliadau

4.1 Yn yr adran hon rydym yn crynhoi ein casgliadau yn yr adroddiad hwn ac yn edrych ymlaen at y camau nesaf yn y broses aildrwyddedu.

**Dyma ein prif gasgliadau:**

Rhwymedigaethau'r drwydded bresennol yw'r cyfraniadau sylfaenol i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus rydym yn eu disgwyl ar gyfer cynulleidfaoedd, ac mae gan Sianeli 3 a 5 enw da am eu cyflawni.

- Yn ychwanegol at rwymedigaethau penodol y drwydded, mae trwyddedeion Sianel 3 a Sianel 5 yn cyfrannu'n fwy cyffredinol at ddibenion ac amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus - er enghraifft, drwy fuddsoddi mewn amrywiaeth eang o gynnwys gwreiddiol o'r Deyrnas Unedig sy'n diwallu anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd gwahanol. Mae ein hymchwil yn dangos bod cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi'r sianeli.
- Gallai'r rhwymedigaethau presennol fod yn gynaliadwy yn fasnachol, fel y gallai'r trwyddedeion barhau i'w cyflawni dros gyfnod nesaf y drwydded; sefyllfa a fyddai'n cael ei chryfhau drwy weithredu diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig y Llywodraeth i sefydlu rheoliadau amlygrwydd ac argaeledd newydd ar gyfer gwasanaethau teledu ar-lein darlledu gwasanaeth cyhoeddus perthnasol.

## Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y gallai'r trwyddedau fod yn gynaliadwy yn fasnachol, ond gallai hyn ddod o dan bwysau cynyddol wrth i lefelau gwylio llinol ostwng

4.2 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfraniadau at ddibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r costau a'r manteision cysylltiedig o gyflawni'r rhwymedigaethau hynny dros gyfnod trwydded deng mlynedd newydd a ddaw i ben yn 2034. Mae ein dadansoddiad, a'r wybodaeth a ddarparwyd gan drwyddedeion i ategu hynny, o reidrwydd yn seiliedig ar gyfres o dybiaethau, rhagolygon ac ystodau gwerth eang.

4.3 Ar sail ein dadansoddiad a'r wybodaeth a ddarparwyd gan y trwyddedeion, rydym o'r farn y gallai rhwymedigaethau'r drwydded fod yn gynaliadwy yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r sector darlledu a chlyweledol yn symud yn gyflym, lle mae tueddiadau ac anghenion cynulleidfaoedd yn newid yn gyflym. Dros y degawd diwethaf mae gwylio llinol wedi gostwng 28%,[65] wrth i gynulleidfaoedd dreulio mwy o amser yn gwylio cynnwys ar-lein. Mae'r duedd hon yn debygol o barhau a gallai ostwng yn gyflymach na'r hyn y mae trwyddedeion yn ei dybio yn eu dadansoddiad, gan roi cynaliadwyedd rhwymedigaethau'r drwydded dan fwy o bwysau.

[65] BARB.

4.4 Yn ein dogfen ymgynghori *Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr*, fe wnaethom ddweud bod angen diwygio'r fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar frys er mwyn parhau i ddiogelu anghenion cynulleidfaoedd wrth iddynt barhau i symud ar-lein. Er mwyn sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn berthnasol i gynulleidfaoedd, fe wnaethom argymell diwygio'r fframwaith rheoleiddio er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd, ymysg pethau eraill, i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddarparu eu gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar draws darlledu ac ar-alw. Fe wnaethom hefyd ailddatgan ein hargymhellion yn 2019 y dylai Llywodraeth y DU gyflwyno deddfwriaeth i sicrhau amlygrwydd ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus byw ac ar-alw yn ogystal â gwneud argymhellion newydd ar sut i sicrhau bod cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang ar lwyfannau teledu cysylltiedig.

## Mae diwygiadau i'r fframwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn enwedig i'r drefn amlygrwydd ac argaeledd, yn hanfodol i gynulleidfaoedd, a byddant yn cryfhau cynaliadwyedd trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5

4.5 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig bellach wedi cyhoeddi ei chynigion i ddiwygio'r sector darlledu ac mae'n bwriadu cyflwyno bil cyfryngau i'r Senedd yn ddiweddarach eleni. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn cynnwys bwrw ymlaen â'n hargymhellion i ymestyn y drefn amlygrwydd ac argaeledd i wasanaethau ar-alw dynodedig darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a galluogi darlledwyr i gyflawni eu rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar draws gwasanaethau darlledu ac ar-alw.

4.6 Ochr yn ochr â manteision diwygio o'r fath i'r gynulleidfa, rydym yn cytuno â'r trwyddedeion y bydd gweithredu'r cynigion hyn yn ddatblygiad pwysig i gryfhau cynaliadwyedd rhwymedigaethau'r drwydded, drwy wella manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn cydnabod nad yw'n glir eto pa mor werthfawr fydd unrhyw fantais newydd i'r trwyddedeion.

4.7 Rydym hefyd yn nodi bod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyfrifol ar y cyd am gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n cynnwys darparu gwasanaethau teledu cytbwys o ran natur a phwnc er mwyn diwallu anghenion a bodloni buddiannau cynulleidfaoedd ledled y Deyrnas Unedig. Mae'n bwysig bod y fframwaith rheoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus cyffredinol yn parhau'n gydlynol, er mwyn i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd, barhau i ddarparu amrywiaeth eang ac amrywiol o wasanaethau o ansawdd uchel y mae cynulleidfaoedd yn eu gwerthfawrogi ac yn dymuno eu gwylio.

4.8 Byddwn yn parhau i gynnal adolygiad cyfnodol o berfformiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae hon yn ffordd bwysig i ni ymgysylltu â chynulleidfaoedd a'r diwydiant ynghylch sut mae cylch gwaith a dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cyflawni.[66]

[66] Nid yw amseriad yr adolygiad nesaf wedi ei bennu eto o ystyried y newidiadau deddfwriaethol a gynigir, ond sylwch ein bod ni fel arfer yn gwneud y rhain bob 5 mlynedd.

## Mae achos da dros fwrw ymlaen i adnewyddu'r drwydded

4.9 Yn gyffredinol, rydym o'r farn y gallai'r trwyddedeion presennol barhau i gyfrannu at gyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus am gost sy'n gynaliadwy'n fasnachol yn ystod cyfnod nesaf y drwydded, gan ystyried manteision strategol ehangach posibl y trwyddedau.

4.10 Fel y nodwyd, dylai'r diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn disgwyl eu gwneud yn ddiweddarach eleni gryfhau cynaliadwyedd y trwyddedau yn ystod cyfnod nesaf y drwydded drwy wella manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

4.11 Am y rhesymau hyn, nid ydym yn gwneud argymhelliad bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn defnyddio ei bwerau gwneud gorchmynion i ddiwygio neu ddileu'r amodau y mae'n rhaid eu cynnwys yn y trwyddedau neu i rwystro adnewyddu'r trwyddedau.

## Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol tan 30 Mehefin 2023 i wneud gorchmynion mewn perthynas ag adnewyddu neu amodau trwydded

4.12 Ar ôl derbyn yr adroddiad hwn, hyd yn oed heb argymhelliad gennym ni, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn na ddylid adnewyddu trwyddedau rhanbarthol Sianel 3, a/neu drwydded brecwast Sianel 3 a/neu drwydded Sianel 5. Fel arall, gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer ei bwerau i wneud gorchmynion i ddileu, neu mewn rhai achosion ddiwygio rhai gofynion statudol mewn perthynas â rhwymedigaethau y mae'n rhaid eu cynnwys yn nhrwyddedau Sianel 3 a Sianel 5.

4.13 Yn absenoldeb gorchymyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhwystro adnewyddu, ac ar ôl cael ceisiadau gan y trwyddedeion i adnewyddu eu trwyddedau (y mae'n rhaid eu derbyn erbyn 30 Ebrill 2023), byddwn yn bwrw ymlaen i ystyried a ddylid adnewyddu'r trwyddedau. Mae'r rhesymau dros benderfynu peidio ag adnewyddu'r drwydded wedi eu nodi yn y Ddeddf.[67] Maent yn cynnwys pan nad ydym yn fodlon y byddai'r trwyddedai'n darparu gwasanaeth sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas â'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus a'r cwotâu rhaglenni.

4.14 Rhaid adnewyddu trwyddedau ar yr un telerau ac amodau, ac eithrio, mewn perthynas â gwasanaethau Sianel 3, y gallwn newid yr oriau ac (yn achos y trwyddedau Sianel 3 rhanbarthol) yr ardaloedd y darperir y gwasanaethau ar eu cyfer. Rhaid i ni hefyd benderfynu ar y telerau ariannol y bydd trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 yn cael eu hadnewyddu. Os na fyddwn yn adnewyddu un neu ragor o drwyddedau (er enghraifft, os bydd y trwyddedai'n gwrthod telerau ariannol y drwydded newydd) yna byddai angen i ni ail-hysbysebu'r drwydded ar gyfer y gwasanaeth dan sylw. Byddai angen rhoi unrhyw drwydded newydd erbyn 31 Rhagfyr 2024.

[67] Adrannau 216(5) i (7) o'r Ddeddf.

## Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, trwyddedeion ac eraill i weithredu newidiadau i'r trwyddedau sy'n deillio o unrhyw ddeddfwriaeth newydd

4.15 Mae'n debygol y bydd newidiadau amrywiol y bydd angen eu hadlewyrchu yn nhrwyddedau Sianel 3 a 5 unwaith y bydd deddfwriaeth newydd sy'n gweithredu cynigion y Llywodraeth ar gyfer diwygio yn cael ei phasio gan y Senedd. Nid oes gennym eglurder ynglŷn â beth yn union fydd y newidiadau hynny ar hyn o bryd.

4.16 Gallai'r broses aildrwyddedu a ddisgrifir uchod gyd-fynd â gweithredu newidiadau deddfwriaethol y mae angen eu hadlewyrchu yn y trwyddedau. Rydym yn cydnabod y gallai fod senario lle nad yw newidiadau ehangach i'r trwyddedau sy'n deillio o ddeddfwriaeth newydd yn cael eu gweithredu cyn adnewyddu. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y trwyddedeion a rhanddeiliaid eraill i ymgynghori ar newidiadau perthnasol a'u rhoi ar waith mewn ffordd bragmataidd ac amserol.